

ECO'R WYDDFA

Rhif 139

MEDI 1988

Pris 20c

BRO AR WERTH

Fel yna'n union y mae'n ymddangos os edrychwch chi o'ch cwmpas y dyddiau yma. Prisiau tai yn codi ymhell o gyrraedd mwyafrif o drigolion y fro ac yn siwr o afael ein pobl ifanc sydd yn chwilio am eu tŷ cyntaf. Ac eto mae'r gwerthwyr yn crefu am dai gwag ym mhentrefi'r fro hon gan fod ganddynt resi o gwsmeriaid yn barod i'w prynu. A phheidied neb â meddwl mai problem unigryw i fro'r Eco yw hon; adlewyrchiad ydyw o'r hyn sy'n digwydd led-led cefn gwlad gwledydd Prydain. Tueddiad cyffredinol ydyw — ond tueddiad bygythiol, serch hynny, ac yn un o teimlwn ei frath ddyfnaf yn ein cymunedau Cymraeg, fel y fro hon.

Mae dau ddatblygiad arall, unigryw i'r fro, wedi symblu'r pennawd ac isod, ac ar dudalennau 4 a 5, rydym yn rhoi cryn sylw iddynt.

BRYNA NO FON

Dyma slogan pentrefwyr Llanrug a'r cylch sydd wrthi'n brysus iawn ar hyn o bryd yn paratoi'r frwydr yn erbyn cwmni Famous Town Limited sydd am ddatblygu canolfan gwyliau ar dir ffermio ar gyrion y pentref. Gwnaethpwyd cais gwreiddiol am ddatblygu tir Bryn Afon, Cae Poeth, Tyddyn Elan a Twll Clawdd, Llanrug ar ddiwedd y llynedd, a bu gwrthwynebiad chwyrn iddo, yn enwedig gan drigolion ardaloedd y cawia a Didfa. Roedd Cyngor Cymdeithas Llanrug yn unfrydol yn eu gwrthwynebiad o'r cynllun, ac yr oedd amryw o unigolion a chyrrff cyhoeddus a chymdeithasau eraill wedi datgan gwrthwynebiad llafar ac ysgrifenedig i'r datblygiad.

Ar ddechrau mis Chwefror eleni roedd y cais yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Arfon. Roedd Siambr y Cyngor yng Nghaernarfon yn llawn o bentrefwyr Llanrug, ac o fwyafrif llethol, penderfynwyd gwrthod y cais. Bellach, mae cwmni Famous Town wedi apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol oherwydd for yr awdurdod cynllunio lleol wedi "methu a chyflwyno rhybudd o'i benderfyniad o fewn y cyfnod penodedig." Penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol y dylid cynnal Ymchwiliad Cyhoeddus i ystyried yr apel. Mae'r Ymchwiliad i'w gynnal ar ddydd Mawrth, Medi 13 a'r dyddiau canlynol. Eisoes mae trigolion Llanrug wedi gwrthwynebu lleoliad yr Ymchwiliad. Maent yn dadlau y dylai'r Ymchwiliad gael ei gynnal yn Llanrug ac nid yng Nghaernarfon. Ym mis Gorffennaf galwodd y Cyngor Cymdeithas Gyfarfod Cyhoeddus i drafod y gwrthwynebiadau i'r datblygiad yn yr ardal. O gofio fod hwn yng nghanol tymor y

gwyliau, roedd ymateb y trigolion yn ardderchog. daeth dros gant o bentrefwyr i'r Cyfarfod Cyhoeddus yng Nghapel Hermon, a mynegodd y mwyafrif ohonynt eu bwriad o fod yn bresennol yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus. Etholwyd nifer o drigolion lleol ynghyd â'r Cyngor Cymdeithas i ffurfio pwyllgor i drefnu'r ymgyrch wrthwynebu. Eisoes mae sticeri car wedi eu cyhoeddi, ac y mae amryw yn casglu enwau gwrthwynebwyr ar ddeiseb. Mae gweithgareddau eraill ar y gweill hefyd, ac os na chaiff lleoliad yr Ymchwiliad ei newid, yna bydd bws yn cael ei logi i gario gwrthwynebwyr i'r Ymchwiliad yng Nghaernarfon. Dywedodd llefarydd ar ran y Pwyllgor, mai'r angen mwyaf ar hyn o bryd yw i bobl lythyr â'r Swyddfa Gymreig i ddatgan eu gwrthwynebiad. Dylid anfon sylwadau ysgrifenedig at Yr Ysgrifennydd Gwladol, Adain Cynllunio Tref, Y Swyddfa Gymreig, Parc Cathays, Caerdydd Cf1 3NQ. Mae angen nodi y cyfeirnod P42/479 ar bob llythyr. Mae'r Pwyllgor yn awyddus hefyd i gynrychiolwyr gwahanol fudiadau a chymdeithasau o fewn y fro i fod yn bresennol i fynegi gwrthwynebiad yn yr Ymchwiliad. Eisoes mae nifer helaeth o unigolion wedi datgan eu bod yn barod i siarad yn yr Ymchwiliad. Os oes unrhyw rai yn dymuno gwybod mwy am y broses o ddatgan gwrthwynebiad yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus, yna mae croeso i chwi gysylltu ac unrhyw aelod o'r Cyngor Cymdeithas neu aelodau eraill o'r Pwyllgor Gwrthwynebu.

Beth ddaw o hen Chwarel Glyn Rhonwy? Trowch i dudalennau 4 a 5.

PENLLYN HONDIWRAS?

*Para alguien muy especial
en su Cumpleaños*



Sawl tro, wrth groesi Pont Penllyn, ydych chi wedi dweud wrth fwrw golwg tuag at yr Wyddfa, "Does dim golygfa debyg i hon yn y byd." Wel, meddyliwch eto.


Derbyniwyd y cerdyn pen-blwydd (llun uchod) yma gan Mr Tom Foulkes, Gwynant, Bethel, oddi wrth ei ferch Siân, sydd yn gweithio fel nyrs yn Hondiwras, America Ganol.

Tybed, meddech chi, oes golygfa fel hon yn y wlad bell honno? Oes ganddynt hwythau Lyn Padarn, gastell a'r Wyddfa. Sgersli bilif!

Wrth gwrs, fe ddennwyd llygad Siân yn syth at y cerdyn oherwydd mae'n amlwg fod y llun wedi ei dynnu o Frynrefail, pentref genedigol ei thad.

Doedd ein gohebydd Sbaenaidd ddim gartref pan gawsom y stori, felly, fedr unrhyw un ohonoch chi gyfieithu'r geiriau inni?

BUGEILIAID BRO WAUN YN CYNRYCHOLI CYMRU



Llongyfarchiadau calon i Elwyn Griffiths (chwith), Cae Sgubor, Betws Garmon a John Griffith Jones, Hafod y Rhug, Waunfawr, sydd wedi eu dewis i gynrychioli Cymru mewn Rasys Cŵn Defaid yn yr Alban yn y dyfodol agos. Mae Elwyn Griffiths yn hen law arni oherwydd mae wedi cynrychioli ei wlad o'r blaen, 17 mlynedd yn ôl. Dechreuodd John Griffith Jones ymddiddori mewn hyfforddi cŵn defaid ym 1974 a hwn fydd y tro cyntaf iddo gystadlu ar lefel ryngwladol. Ein dymuniadau gorau i'r ddau — ac i'w cŵn, wrth gwrs!

ECO'R WYDDFA

RHIF 139
MEDI 1988

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas,
Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug.
(C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:
Nant Roberts, 'Arwel', Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen
Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug.
(Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: Jonn
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerald, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes
Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Annedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS:

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU MEDI 29
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
MEDI 20
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

MARY E. THOMPSON ARLUNYDD

Annwyl Olygydd,
Bydd rhai o'ch darllenwyr yn cofio
bod Cyngor Celfyddydau Cymru, rai
blynyddoedd yn ôl wedi trefnu ard-
dangosfa o waith yr arlunydd Mary
Elizabeth Thompson yma yn
Amgueddfa'r Gogledd yn Llanberis.
Bu'r arddangosfa yn hynod boblo-
gaid, ac mae'n dda gennyf ddweud
fod Amgueddfa Genedlaethol Cymru
(perchennog y darluniau) bellach
wedi trosglwyddo'r casgliad cyfan i'n
gofal yn Llanberis.

Bu Miss Thompson yn gyfarwydd
iawn i nifer o weithwyr chwareli
Arfon, ac yn ei thro, tua'r 1940au a'r
1950au cynnar, bu'n arlunio yn
chwareli'r Penrhyn, Dinorwig,
Penyrsedd a Dorothea; ac yn
chwarel Ithfaen, Trefor. Gweithiai'n
hynod galed, dan amgylchiadau
ddigon anghysurus, ac mae ei darlu-
niau yn dystiolaeth gloym o ddycn-
wch un a fu'n ymladd anabledd
corfforol difrifol drwy'i hoes.

Bellach, mae ei gwaith ai gyrfa yn
destun ymchwil, yn bennaf gan arbe-
nigwraig o'r Swisdir, Frau Denise
Daenzer. Maer Frau Daenzer yn
bwriadu cyhoeddi llyfr yn trafod gyrfa
Miss Thompson, ac wrth reswm mae
arni angen digon o wybodaeth am
waith a bywyd yr arlunydd yma yn
chwareli a phentrefi Arfon. Os oes
gan unrhyw un o'ch darllenwyr
wybodaeth neu atgofion am Miss
Thompson, yna tybed petaent cystal
â chysylltu â mi yn Amgueddfa'r
Gogledd, Llanberis. (Rhif ffôn
Llanberis 870636).

Diolch yn fawr iawn.
Yr eiddoch yn gywir,
Dr. Dafydd Roberts,
Ceidwad.

PYTHEFNOS RECORDIAU CYMRAEG

Pythefnos recordiau Cymraeg
At ddarlennwyr Eco'r Wyddfa
Be' fyddwch chi yn ei wneud yn ystod
mis Hydref?

Mi fydd Sain yn trefnu taith gerddorol
o amgylch Cymru, a fydd yn
cydreddeg â'r Ymgyrch Recordiau a
Chasetiau Flynyddol. Rhwng y sei-
thfed a'r ail ar hugain o'r mis hwnnw
bydd Uned Deithiol Sain yn ymweld
ag ysgolion a mannau amlwg rhai
trefi a dinasoedd gan chwarae - a
gwerthu, gobeithio! - reocrdiau a
chasetiau Cymraeg. Gobeithiwn y
bydd artistiaid lleol yn ymuno â ni yn
yr Uned ac yn perfformio ynddi.
Gobeithio hefyd y byddwch chiithau,
ddarlennwyr Eco'r Wyddfa, yn dod i'n
gweld pan fyddwn yn y cyffiniau acw.
Bydd croeso mawr i chi.

Yn rhifyn mis Hydref o Eco'r Wyddfa
bydd ffurflen Ffodus a fydd yn cani-
atau i chi gael gostyngiad o 50 ceiniog
oddi ar nwyddau a brynir yn yr
Uned yn ystod "Pythefnos Recordiau
Cymraeg 1988".

Felly nac oedwch! Archebwch eich
copi o rifyn mis Hydref o Eco'r
Wyddfa ac arbedwch 50 ceiniog oddi
ar record, caset neu gwyno-ddisg
Cymraeg o'ch dewis chi.

Cofiwch alw.

Siân Esmor
Canolfan Sain
Llandwrog

CHWARAEON

Annwyl Ddarllenwyr,
Bwriada BBC Cymru lunio rhaglen
deledu chwaraeon newydd ar gyfer
tymhorau'r hydref a'r gaeaf - i'w dar-
lledu ar nos Wener. Huw Llywelyn
Davies fydd y cyflwynydd a'r gobai-
th yw o bryd i'w gilydd y bydd y rhaglen
yn cynnwys newyddion a
phortreadau lleol - boed yn unigolion,
yn dimau, yn ddigwyddiadau neu'n
wir, glybiau neu ganolfannau
chwaraeon.

Yn hyn o beth byddwn yn dra diolch-
gar pe baech yn gallu danfon unrhyw
wybodaeth am ddigwyddiadau o'r
fath mewn da bryd ataf. 'Rwyf yn
awyddus iawn i greu cysylltiadau
agos â'r Papurau Bro a chredaf y
bydd y rhaglen hon yn lwyfan teilwng
i'ch amryw weithgareddau.

Edrychaf ymlaen i glywed oddi
wrthyfch.

Yn gywir,
Geraint Evans,
Cynhyrchydd,
Canolfan y BBC,
Llandaf,
Caerdydd.

GLYN RHONWY BE' NESA'?

Annwyl Fonwr,
Y peth mawr sy'n taro rhywun wrth
ystyried Cynllun Glyn Rhonwy yw
creulondeb y cyfan. Dyma inni fro ar
ei chylwlwng, ardal a fu unwaith yn
ffyniannus ond sydd bellach â chan-
noedd ynddi sydd agos at anghofio
beth yw gwaith sefydlog, pobol ifanc
na wyddan nhw ddim beth yw cyflog
digonol, rhieni heb wybod o b'le daw
sgidia' newydd i'r plant. A beth mae
Cyngor Arfon yn ei wneud? Eu twyllo.
Eu camarwain i greu y daw arian eto
i law, ond inni oll gydsynio â'r bwriad i
sodro rhyw sodom Seisnig ar lan Llyn
Padarn. "Swyddi i bawb" yw'r gri: ac y
mae'n gelwydd.

Mae celwydd yn ddefnyddiol; mae'n
ein harbed rhag wynebu'r gwir. Ond
pan fo celwydd yn sylfaen polisi lly-
wodraeth leol, mae'n golygu bod
pobol yn dioddef. Yr anghenus sy'n
dioddef waethaf oll. Nid swyddi a ffy-
niant sydd yma, ond gyrru sefyllfa
ddrwy yn un anobeithiol. Dyna'r
creulondeb.

Ac i ba ddiben? Er mwyn achub
wynebau'r cynghorwyr fuont mot dwp
â chydysynio i wario cannoedd o
filoedd i brynu'r safle. Cynghorwyr
mor hollol anwybodus a di-glem ag i
gredu y gallasai croes rhwng
Aviemore (heb yr eira) a Butlins (yn y
glaw) lwyddo yn Llanberis. Ac er
mwyn i swyddogion gael rhywbeth i
lordio'n ei gylch uwch y sigars a'r
licar, a chanmol ei gilydd yn lle gor-
fod wynebu eu methiannau un diwrn-
od yn rhagor. Mae'r cyngor yn
berchen Glyn Rhonwy, a rhaid cyfi-
awnhau'r gwario. Felly beth sydd i'w
wneud? Aberthu pawb a phopeth er
mwyn arbed eu crwyn eu hunain, a
stwrffio pres i Sais o Southampton, i
hwnnw wneud y bucr-waith.

Ydi, mae'r Cyngor yn gwybod beth
fydd yn digwydd. Mae'n gwybod am
y chwalfa gymdeithasol a ddaw
gyda'r cynllun, ac am ddinistr yr holl
etifeddiaeth ddiwylliannol sy'n
gwneud cymuned ac yn ei chadw'n
un trwy bob tywydd. Dyna pam y
bu'n dadlau yn erbyn yr un fath o
ddatblygiad yn union (ond un llai)
pum milltir i lawr y lôn yn Y Felinheli.

Pe buasai Cyngor yn berchen y Cei
yno, beth tybed fuasai'r hanes hed-
diw? Pe buasai pobl y Felinheli fel
Cyngor Arfon, pa obaith fuasai? Ond
tydyn' nhw ddim: mae nhw'n ddigon
call i weld trwy'r celwyddau, ac i weld
nad yw cyfnewid bywyd y gymuned
am ddyrmaid o swyddi sgwrio simsan
ddim yn fargen, er mor brin yw
gwaith.

Felly Cwm y Glo a Dinorwig,
Llanberis a Bryn'refail, os ydych am
barhau'n fyw rhaid gwneud fel Y
Felinheli: uno, sefyll, a rhoi ar ddeall i
Cyngor Arfon ac i bawb arall nad
yw'r cynllun hwn ddim am fynd yn ei
flaen. Bod gwell defnydd i'r safle,
defnydd a fuasai'n troi'r budd i bobl y
fro, nid i gyfrif banc yn Southampton.
Hunllef swnllyd yn unig yw'r cynllun
ar hyn o bryd: gwrthwynebwch o
rwan, cyn iddo fagu cnawd a
dannedd i'ch difa.

Howard Huws

Cadeirydd Mudiad Adfer

TAN GAMP

Annwyl Olygydd,
Ydych chi'n un o'r bobl 'ma sy'n
gwrando ar gwisiau chwaraeon, ac
yn gallu ateb yn well na'r rhai sydd
wrthi?

Oes ganddoch chi awydd rhoi cynnig
arni?

Wel, mi fydd Arthur Emyr yn ei ^ol
gyda "Tan Gamp" ym mis Hydref, ac
mae angen cystadeuwyr newydd.

Timau o dri sydd eu hangen - a braf
o beth fyddai gweld merched yn eu
plith.

Gyrrwch lythyr ar frys i "Tan Gamp",
Radio Cymru, BBC, 32 Heol
Alecsandra, Abertawe. SA1 5DT.

Yr eiddoch yn gywir,
Bethan Evans,
Cynhyrchydd "Tan Gamp"

PLATIAU I DDATHLU CYFIEITHU'R BEIBL

Annwyl Gyfaill,
Fel y cyntaf mewn cyfres o blatiau
casgliadol arbennig yn dwyn y teitl
"Cymru yn ei Gogoniant" cynhyrchir
400 o blatiau clasur arbennig wedi
gwydro â ffotograff lliw naturiol o
gartref William Morgan - Tŷ Mawr,
Wybman, ger Penmachno
Gwynedd.

Ar gefn pob un o'r platiau 8 a hanner,
ymyl aur bydd tystysgrif dilystrwydd.
Cynigir y platiau am bris £23 yr un,
yn cynnwys cludiant.

Fel perchennog plât, "Tŷ Mawr" fe
gewch chi y cynnig cyntaf o bob plât
dilynol yn y gyfres, ond wrth gwrs ni
bydd gorfodaeth arnoch i wneud
hynny.

Disgwyliwr gwerthu da ar y cyntaf yn y
gyfres ac felly, y cyntaf i'r felin fydd
hi. Archebwch yn gynnar felly, a phe-
diwch ag oedi.

I archebu eich plât clasur cyfyngedig
"Tŷ Mawr, Wybman", anfonwch
nodyn â'ch cyfeiriad, a'r arian pri-
odol - £23, ac fe gewch eich plât
cyn gynted ag y bo modd.

Yr eiddoch yn gywir,
Ken Thomas, Clive Williams
Crefftiau Nant Wen
Heol Bedwellte
Aberargoed
Morgannwg Ganol

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

ENWAU CYMRAEG AR FAPIAU ORDNANS

Annwyl Olygydd,
Ers cryn amser bellach, mae'r
Cyngor Sir wedi bod yn gohebu
gyda'r Arolwg Ordans ynglŷn â'r
defnydd a wneir ganddynt o enwau
Cymraeg ar eu mapiau.
Mae'r Arolwg Ordans eisoes wedi
datgan mai eu polisi yw "adlewyrchu
defnydd lleol" ac eto mae'r Cyngor
byth a beunydd yn tynnu eu sylw at
enwau estron sy'n cael eu defnyddio
ar eu mapiau ar draul yr enwau
Cymraeg gwreiddiol.

Mae'r Cyngor wedi gofyn i mi anfon
atoch i ofyn a ydych yn gwybod am
unrhyw enwau sy'n cael eu defnyddio'n
lleol yn eich cymuned ac sy'n
cael eu gadael oddi ar fapiau'r
Arolwg Ordans.

Buaswn yn gwerthfawrogi unrhyw
enghreifftiau gan ddatgan ar ba fapiau
y maent yn ymddangos; yr enw
sy'n ymddangos ar hyn o bryd a'r
enw ddylai ymddangos.

Yn bur,
H. Ellis Hughes,
Ysgrifennydd a Chyfreithiwr y Sir,
Swyddfa'r Sir,
Caernarfon.

"GOLWG"

Annwyl Gyfaill,

Fel y gwyddoch, mae cylchgrawn
"Golwg" bellach wedi cael ei lansio a
bydd yn ymddangos bob wythnos o
fis Medi ymlaen. Yn ystod wythnos yr
Eisteddfod, roedd diddordeb mawr a
brwdfrydedd ynglŷn ag o, gyda
channoedd o bobol yn tanysgrifio
neu am archebu trwy siop. A gawn ni
felly ofyn am help darllenwyr y papur
bro i wneud yn siwr fod "Golwg" ar
gael i bawb?

Rydym yn sefydlu sustem fel bod y
cylchgrawn yn cael ei werthu mewn
siopau papur newydd a siopau
Cymraeg trwy Gymru gyfan — o'r
cadwyni mawr i'r siop bentref.
Rydym yn awyddus i wneud yn siwr
fod pawb sydd eisiau derbyn
"Golwg" yn gallu ei gael yn brydlon a
didrfferth bob bore dydd lau. Fe
fydd yn 32 o dudalennau, yn llawn
dop o straeon ac erthyglau wedi eu
hysgrifennu'n fywiog a hawdd eu
darllen.

Felly, os oes unrhyw un yn cael
unrhyw broblem wrth drio cael
gafael ar "Golwg", a wnewch chi
adael inni wybod? Does dim angen
stamp, dim ond rhoi nodyn mewn
amlen a'i anfon at "Golwg", Rhad
Bost, Blwch Post 4, Llanbedr Pont
Steffan, Dyfed SA48 7ZZ. Pe gallech
nodi'r drafferth a rhoi enw'r siop lle
byddech chi am dderbyn y

Y Cylch Sialc

Glan Bertolt Bracht



Mae pobl yn dangos cryn ddiddordeb
yn barod yng nghynhyrchiad diwed-
daraf Cwmni Theatr Gwynedd. Bydd
"Y Cylch Sialc" yn agor yn Theatr
Gwynedd nos lau, 29 Medi hyd nos
Sadwrn, 8 Hydref.

Hyd yn hyn, rydym wedi cael
archebion am dros bedwar cant o
docynnau ar gyfer perfformiadau
Bangor yn unig. Felly brysiwch i
archebu i sicrhau eich sedd ar gyfer
y sioe hon.

Am fwy o fanylion cysylltwch â
Gwyddfid Jones
Theatr Gwynedd
Bangor
Ffôn: Bangor 351707

cylchgrawn, byddai hynny o help
mawr.

Gan ddiolch ichi am ein helpu ni i
wella'r gwasanaeth.

Yn gywir iawn,
Dylan Iorwerth
(Golygydd)

DIOLCH I BOBL LLANRUG

Llwyn
Lôn Ddewi
CAERNARFON

Annwyl Mr Golygydd,

Hoffwn ddiolch o galon i bawb yn
Llanrug am bob arwydd o
ddymuniad da a dderbyniais ar fy
ymddeoliad.

Yn ystod fy nhymor yn y pentref
derbyniais yn hael o gyfeillgarwch a
charedigrwydd sy'n nodweddiadol
o'r ardal.


Gallaf eich sicrhau fod y consyrn
a'r dymuniadau da hyn yn help a
chysur mawr.

Carwn innau ddymuno'n dda i holl
drigolion y pentref.

Gyda phob bendith
Yn gywir iawn
W Derfel Gruffydd

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

WYNEBAU DIFRIFOL A HAPUS YN Y CARNIFAL



DRAENOG

Y Gwyliau

Doedd fawr o neb yn marw,
'Fero' wedi cau,
"Wel dyma gyfle Selwyn"
Medd Emrys, rhyw nos lau.

"I gael rhyw wyliau bychan
A mynd a'r ddwy am dro,
Hyd lwybr Gerallt Gymro
I wlad y pyllau glo.

Rhaid cychwyn," meddai Emrys,
"Ddydd Sadwrn cyn y wawr,
Er mwyn cael cyrraedd yno
Cyn dod o'r traffic mawr."

Ond fel pob gwyliau arall,
O Gatwick a Heathrow,
Bu aros hir cyn cychwyn
Er mwyn i'r gwallt gael tro.

Y celfi wedi pacio
Brws shafio, cot a chap.
'Hen Em' tu ôl i'r olwyn
A Selwyn gyda'r map.

Pengroes ymlaen i Bryncir,
Cynefin aeth ymhell,
Cymharu'r map â'r ardal,
Doedd hynny yn fawr gwell.

Ymlaen i Aberystwyth
A Sel yn sâl fel ci,
Ei roi o yn ei wely
Gan adael dim ond tri.

Fe wellodd dipyn trannoeth
Cyn teithio Cymoedd De.
"Ei fol o," meddai Anwen
"Be fwytais di i de."

Yn nhaffic Abertawe
Bu aros hir tan dri,
"Tyrd adref" meddai Selwyn
"Mae pawb ar goll ond ni."

Dod adre'n ôl o'r dwyrain
Mae'r byd o hyd yn grwn
"Cei gadw'r map" medd Emrys
"Nant Peris ydi hwn."

A chwithau deulu annwyl
Os am rhyw wyliau bach,
Rhaid cadw'r gwallt i gyrlio
A'r gŵr yn hollol iach.

Domino

**Arddangosfa o
Hen Luniau
Bro 'Eco'r Wyddfa'**
Amgueddfa Gogledd
Cymru (Oriel Eryri)
Llanberis
Medi 5ed - am fis
Trefnwyd gan Gymdeithas
Hanes Bro 'Eco'r Wyddfa'

TAC SIS BETH EL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93)670555

**SIMNEIAU GWael? CRACIAU?
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?**

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFLUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

CYNLLUN GLYN RHONWY

SYLWADAU CYMDEITHAS 'PADARN'

Sefydlwyd Cymdeithas Padarn am fod cynlluniau Cyngor Arfon i ddatblygu ardal Glyn Rhonwy a Llyn Padarn ar raddfa mor enfawr ac estron i'w amgylchedd yn fygythiad chwyldroadol i gymdeithas godre'r Wyddfa ac yn debygol yn y pen draw o fygwth yr union bethau sy'n tynnu pobol o bob rhan o'r byd tuag yma. Ar yr un pryd fe sylweddola'r gymdeithas fod angen datblygiad anturus er mwyn yr ymwelwyr a gwaith yn y fro i'r brodorion i ddiogelu heddiw ac yfory. Nid bwriadau da y cynlluniau a wrthwynebir, ond eu natur.

Felly protest greadigol yw hon sy'n cynnig cynlluniau a sicrhau'r swyddi a'r gwaith - a hwnnw'n waith llai israddol - ac a ofalai fod y datblygiadau yn fwy cydnaws â'r amgylchedd ac yn fwy parhaol a lleol. A thrwy roi pwyslais Gymreig ar y fenter fe gynhigid atdyniadau hollol wahanol i rai pobman arall.

Ac am unwaith mae'r gymdeithas Gymraeg a di-Gymraeg yn unedig yn eu hapel at Arfon, nid i anghofio eu cynlluniau, ond i'w rhesymol ailystyried a'u haddasu. Fe welwch ar y dudalen yma amlinelliad o gynllun (medrir ei gael yn ei fanylder) ar y bras-linellau a gymeradwyir gan awdurdodau Parciau Cenedlaethol Prydain. Ac isod, dyma beth o gefndir cynlluniau presennol Arfon gyda rhai sylwadau.

Be' 'di "Cynllun Glynrhonwy"?

Bwriad gan Gyngor Arfon i weld codi "pentref gwyliau" anferth ar safle hen chwarel Glynrhonwy, rhwng Llanberis a Chwmyglo. "Llethr Sgio" fydd y prif atyniad, ond mi fydd 'na westy, tri chant o dai gwylia', siopa', bwytai, ty tafarn, 'marina', gardd dan do, a mwy. Cwmni o Southampton fydd yn codi'r pres ac yn rhedeg y sioe. Cwmni o Gaergybi fydd yn trefnu'r adeiladu.

Oes 'na ryw farn wedi'i rol ar y Cynllun?

Oes. Adroddiad yr Ymgynghorwyr Defnydd Tir ym 1984, yn dweud na fasa'r llethr sgio a'r gweddill fyth yn talu'i ffordd. Ac os oes 'na "weithdai crefft" ac ati i fod, y basa'n well eu rhoi nhw yng nghanol Llanberis, i ddenu ymwelwyr yno.

Be' wnaeth Cyngor Arfon?

Dyma nhw a rhai cyrff eraill yn chwilio am farn arall, gan ofyn i gwmni McAlpine, Thorpe & Warrier wneud adroddiad. Pan ddaeth honno ar ddiwedd 1984, 'roedd hi'n fwy o hergwdd fyth: dywedodd fod y cynllun yn anymarferol, yn aneconomaidd, ac y basa' fo'n gwneud niwed mawr i gymeriad Cymraeg yr ardal.

Be' wnaeth Cyngor Arfon wedyn?

Dal i gefnogi'r Cynllun. 'Roeddau nhw wedi cael pres mawr (ella' cymaint a £450,000) gan yr Awdurdod Datblygu i brynu'r lle: 'tasa nhw'n cyfadda rwan mai syniad pen dafad oedd y cyfan, mi fasa 'na holi go annifyr ynglyn â pham na

A'R DEWIS ARALL

Brodor o Awstralia yw Eric Madden a ddaeth i fyw i'r Fachwen yn gymharol ddiweddar wedi cyfnod yn America. Mae'n athro, awdur llyfrau plant, cerddor gyda diddordeb arbennig mewn hanes ac yn yr amgylchedd. Treuliodd bedair blynedd yn Awstralia gyda'r hen frodorion yr "aborigines", a daeth lleiafrifoedd yn ddiddordeb newydd iddo. Am fod ganddo hen gysylltiad teuluol â Chymru penderfynodd ymfudo i Gymru lle mae'r etifeddiaeth Geltaidd gryfaf, os yw hi'n ymladd am ei bywyd. "Y Cymry", meddai "yw aborigines Prydain". Gyda'i gymdogion, sy'n cynnwys mewnfudwyr, fe'i hysgogwyd gan gynlluniau Arfon, ond yn hytrach na'u condemnio'n ddinistriol gwnaed astudiaeth deg ohonynt gan dderbyn yr angen am greu gwaith ac am ddatblygiad, gan dderbyn rhannau o'r cynllun mawr ond gan fanylu ar newidiadau fuasai'n cadw'r cyfan rhag distryw i'r gymdeithas a'r amgylchedd. Wele grynoded byr iawn o'r casgliadau a'r awgrymiadau.

Cymeradwyir Cyngor Arfon am symud i gryfhau'r economi gyda mwy o arian, gwaith i oddeutu 300, cyfleusterau newydd a glanhau a harddu Glyn Rhonwy. Ond, pryder am faint y datblygiad a'r costau uchel i'w gadw a olyga brislau uchel i bawb amdano. Gyda'r nifer mawr mae'n rhaid eu cael os yw'r fenter i dalu fe gyfyd tagfeydd ar y ffyrdd, swm o'r gweithgareddau i darfu ar dawelwch y fro, gor-ddefnyddio Llyn Padarn gan darfu ar ei heddwch a'i fywyd gwyllt a'i apêl heb sôn am yr ysbwriel fydd ar led.

Yn gymdeithasol fe beryglir ymhellach y Gymraeg a'r ffordd o fyw gan y mewnlifiad ychwanegol, yn ogystal â masnach Llanberis a'r pentrefi eraill gyda'u siopau, gwestai etc. Croesewir y gwaith a addewir, ond am yr arian a werir (can mil am bob swydd) medrid sicrhau'r swyddi yna mewn amgenach gwaith ar yr un safle heb greu'r fath ddinistr.

Mae'r atyniadau yn mynd dros ben llestri gan greu rhyw fath o ffair neu wersyll Butlins sy' ddim yn gweddu i'r cefndir gyda'r apêl yn un a allasai ddiflannu mewn deg neu ugain mlynedd gan adael diffeithwch ar ei ôl.

Felly, dyma gynnig cynlluniau eraill a fuasai'n creu tri chant o swyddi, yn cynnal a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant, yn diogelu'r harddwch a'r amgylchedd, yn lleihau'r torfeydd a'r llygredd a'r cynnwrf yn y fro, yn darparu pethau diddodol a newydd i'r ymwelwyr, yn gydnaws â'r amgylchedd ac yn debygol o barhau a datblygu am genedlaethau.

Cymeradwyir llu o gynlluniau Arfon, wedi cyfyngu tipyn ar rai ohonynt. Ymysg eu pethau da - chwaraeon dan do a phwll noffio; cyfleusterau awyr agored megis tennis, bowls, marchogaeth, jogio; rhal tai i ymwelwyr a chartrefi i bobl leol; cafeteria da; theatr fechan a neuadd gyngerdd; canolfan i gynadleddau.

Yna fe amlinellir pedwar ar ddeg o ddatblygiadau eraill, yn amrywio o all-agor rhannau proffidiol o'r hen chwarel i lai o dai i ymwelwyr a gwarlo'n hytrach ar fwy o gyfleusterau yn y gwestai lleol, i blannu coed y medrid eu cynaeafu, i ganolfan crefftiau, i greu atgynrychiadau dramatig o hanes Gogledd Cymru a hanes y fro, i gyrsiau dysgu Cymraeg i ymwelwyr a mewnfudwyr, i arddangosiadau o hanes, llenyddiaeth, cerddoriaeth ac arlunwath y Cymry.

Trwy hyn oll buasai'r ymwelwyr a phobl y fro yn gyfoethocach ymhob ystyr.

wnaetho' nhw gael adroddiad cyn gofyn am y pres, a pham y prynwyd y lle o gwbl. Be' tasa'r Awdurdod datblygu isio'r pres yn ôl? Na, gwell oedd peidio â chyfaddef fod homar o gamgymeriad wedi'i wneud: gwell dal at y Cynllun er mwyn achub wyneb y Cyngor, a phoeni am y canlyniadau rhywdro arall.

Ac wedyn?

Dal i hwrjio'r syniad. Dyma drefnu llyfryn i ddenu datblygwyr, a sioe fawr yn Llundain i drio bachu rhywun i roi pres yn y Cynllun. 'Roedd pobol yn gallach na hynny; ddaeth 'na ddim o'r holl sbloet, ac ar silff fu'r Cynllun hyd nes i'r cwmni o Gaergybi dynnu sylw Leading Leisure, Southampton, ato fo. Mae ganddyn 'nhw ddiddordeb, oherwydd yn ddiweddar mae rhai datblygwyr wedi codi "pentrefi" tebyg.

Oes 'na gynlluniau tebyg mewn bod, felly?

Oes. Mae 'na rai wedi'u codi yn y "Lake District", ac eraill wedi'u cynnig ym Mannau Brycheiniog a llefydd eraill. Wedi'u cynnig, ac wedi'u gwrthod, ar ôl gweld be' sy' 'di digwydd yn y "Lake District". Mae nhw fwy neu lai i gyd yr un fath - yn anferth, efo llethr sgio a/neu marina

neu rhyw dyniad felly, tai gwyliau, ac yn medru lledu trwy brynu mwy o dir, mwy o dai.

Mae 'na ddigon o bethau ar gyfer bobol lleol, felly?

Oes - os talwch chi. Yn Langdale, mae teuluoedd lleol yn cael defnyddio'r "pentref gwyliau" ar ddisgownt o 15%. Felly am saith diwrnod y pris lleol yw £408, yn lle £480. Fydd Glynrhonwy ddim gwahanol: yma i wneud pres i nhw'u hunain mae'r datblygwyr, nid i gynnig ffafrau i bobol Llanberis.

Be' 'di effaith y "pentrefi" hyn felly? Be' am olwg yr ardal?

Trychinebus. Mae o'n union fel codi darn o Brestatyn a'i ollwng yng nghanol Eryri. Waeth faint o lechi a choed sy' arno, mae o'n llwyr allan o'i le. Profiad y "Lake District" ydi bod "pentrefi" felly, yn tynnu oddi ar olwg yr ardal, a'r ardal felly'n llai deniadol i ymwelwyr sy'n dwad yno yn un swydd er mwyn gweld rhywle sy' ddim yn edrych fatha' tref. Dinistriwch awyrgylch y lle, a fydd pobol ddim yn hir cyn mynd i rywle arall ar eu gwyliau. Un math o ymwelydd mae'r ardal wedi'i ddenu erioed - y rhai sy' am weld ardal heb

ei gor-datblygu. Gyrrwch nhw o 'ma, a ddon 'nhw ddim yn ôl.

Be' am fusnesa' lleol? Oes 'na effaith arny'n nhw?

Oes: eu gwasgu nhw allan. Diben y Cynllun ydi gwneud elw i'r datblygwyr, ac mae hynny'n golygu troi pob dima i'w "pentref" nhw - a'i gymyd o oddi ar y busnesa' lleol os oes rhaid. Dyna pam mae popeth ar y safle ei hun; does 'na ddim angen i ymwelwyr wario yn unlle arall. Mi fedran' nhw gyrraedd, aros, a gadael heb fynd ar gyfyl Llanberis. Ac os ydyn' nhw isio diwrnod allan, awn nhw ddim hanner milltir i lawr y lôn i Lanberis - mi wnawn nhw ddiwrnd ohoni yng Nghaernarfon neu Fangor. Sylwch hefyd, mae'r datblygwyr am bres pob ymwelydd - nid y rhai sy'n aros yn y "pentref" yn unig. Mi fasa 'nhw'n gwneud eu gorau i ddenu pobl lleol i wario yno hefyd. Y bwriad ydi creu monopoli lleol, a 'does 'na ddim lle yn hwnnw i fusnesa' bach sy' yma'n barod. Gora' peth gan y datblygwyr fasa' cael gwarad o rheiny.

Ond mi fydd 'na gannoedd o swyddi, yn bydd?

Na fydd. Wrth drafod y Cynllun ym 1985, sôn roedd y Cyngor am 8 swydd llawn amser ar y mwyaf, ac ella 10-26 swydd rhan amser. A 'da ni'n g'wobod sut swyddi sy'na yn y fath yma o ddatblygiad: rhai tymor byr, gwael eu hamodau, isel eu cyflog, ansicr. Ond yn sydyn mae'r datblygwyr yn sôn am gannoedd o swyddi, heb yr un tamaid o esboniad ar sut mae wyth neu ugain yn troi'n ddau a thri chant. Unai mae rhywun wedi gwneud homar o gamgymeriad, neu mae rhywun yn trio elwa ar ofnau ac anobaith pobol mewn ardal uchel ei diweithdra er mwyn ennill cefnogaeth. Mae hynny'n dric cyffredin, ond yr un mor greulon pob tro oherwydd twyll ydio. Fydd 'na ddim cannoedd o swyddi. Llond het fasa' na, a dim i ddeud mai pobol lleol sy'n mynd i'w cael nhw. Tydi Cyngor Arfon ddim hyd yn oed yn medru sicrhau mai pobol lleol 'di pawb o weithwyr Canolfan Hamdden Caernarfon a Phwll Nofio Bangor!

Ia, ond mae 'chyddig swyddi'n well na dim, yn 'tydi?

Ydio? Difetha ardal, cau busnesa' lleol, boddi'r gymuned a chwalu ei chymeriad, er mwyn llond dwrn o swyddi "coolie" a chyflog ci am dri mis o'r flwyddyn? Ydi hynny'n fargan? Gwerth swyddi ydi eu bod nhw'n helpu i gadw'r gymuned; os ydi creu 'chyddig o swyddi yn golygu malu'r gymuned, 'tydyn 'nhw ddim yn werth eu cael. Mae'n rhaid gwrthwynebu'r cynllun, a dweud wrth y Cyngor roi rhywbeth gwell yn ei le.

Fatha' be?

Be' hoffech chi? Be' am chwarael? Dyna be' di'r lle, mae 'na garreg dda yna, ac mae 'na fodd ei hailagor, fel yr ailagorwyd Croes y Ddwy Afon ym Mlaenau Ffestiniog. Fasa'r lle ddim yn cyflogi cannoedd, ond o leia' mi fasa' fo'n well ac yn sicrach na sychu lle chwech ty gwyliau. Be' am ddiwydiant arall? Y Glyn ydi'r unig safle posib ar gyfer diwydiant sy' ar ôl, ac mi fasa'n rhoi mwy o asgwrn cefn yn yr economi leol yn lle dibynnu gormod ar ymwelwyr sy' ella' am ddwad, ac ella' ddim, yn ôl y tywydd.

Be' arall?

Be' am gynllun llai, fatha Parc Gwledig, rhywle i roi syniad i bobol ddiarth be' 'di hanas a chymeriad Llanberis, lle all pobol lleol fynd heb orfod talu ffortiwn? Rhywle sy'n cyfeirio pobol at atyniadau'r ardal, yn lle cymryd pobol iddi arnyn' nhw?

Ia, ond mi fasa' hynny'n costio pres Allasa' fo ddim fod yn ddrytach na'r Cynllun. Ym 1985, 'roedd Cyngor Arfon yn meddwl y basai'n costio rhwng £40,000 a £48,000 i greu pob un swydd yn y Cynllun. Rwan mae 'na sôn am wario £30,000,000 o bres rhywun er mwyn cyflogi 200 neu 300 o bobol (heb ddeud sut), hynny yw, rhwng £100,000 a £150,000 ar gyfer pob un swydd. Mae'n wallgo'; mae'n rhaid fod 'na ffyrdd o greu gwell swyddi heb wario hanner cymaint, ond 'tydi Arfon ddim yn fodlon trio. Y cwbl mae'r Cyngor yn gallu'i weld ydi'r llethr sgio a'r ardd fananas. Ac os gawn nhw eu ffordd, dyna fydd diwedd pob ymdrech i gryfhau economi Llanberis: 'does 'na 'nunlle arall ar gyfer datblygu diwydiant. Dyna fydd diwedd Llanberis.

Diwedd Llanberis?

Ia. Un peth ydi cael rhywfaint o waith mewn twristiaeth ochor yn ochor â gwaith diwydiannol. Pan oedd Chwarael Dinorwig yn bod, hwnnw oedd y bara ar gyfer y gymuned: twristiaeth oedd y jam. Ers cau'r chwareli, mae'r ffon fara wedi mynd, a'r gymuned yn gorfod dibynnu ar rannu hynny o bres a ddaw o'r ymwelwyr. Tydi'om yn digon; a rwan mae Cynllun Glynrhonwy am fynd a hyd yn oed yr ychydig hwnnw i'w fol ei hun. Be' wedyn? Bydd Cyngor Arfon yn hapus, bydd y datblygwyr yn hapus, ond fydd 'na ddim Llanberis.

Be' wnawn ni?

Yn gynta', gwrthwynebu'r Cynllun yn gryf. Cefnogi PADARN, a gyrru at Brif Swyddog Cynllunio Arfon i ddeud nad oes isio'r Cynllun o gwbl, a'ch bod chi'n wrthwynebus gynddeiriog iddo. Rhai ar ddallt i'ch cynghorydd nad ydi'o ddim i gefnogi'r Cynllun, a'i fod o i wrthwynebu'r peth i'r eithaf. Gyrru at y datblygwr, i ddeud wrtho fo fynd i rywle arall i bluo'i nyth. Gwrthwynebu, fel y mae pobol y Felinheli wedi gwrthwynebu yr un fath o beth yn eu pentra' nhw, fel mae pobol Llanrug yn gwneud yn eu pentra' nhw. Dyna'r unig ffordd i achub Llanberis, i nadu'r cyfan rhag mynd nid o ddrwg i waeth, ond o fyw i farw. Gwrthwynebwch heddiw!

Dyma'r cyfeiriad i yrru gwrthwynebiadau ato:

Y Prif swyddog Cynllunio,
Adran Gynllunio Cyngor Arfon,
"Cwellyn",
Lôn Llanberis,
Caernarfon.

Dyma gyfeiriad y datblygwyr:
Leading Leisure Ltd.,
Briton House,
Briton Street,
Southampton,
Lloegr.

CLINIC DYNION

Clinic nesaf i'w gynnal nos Lun Medi 5ed o 6 tan 8 o'r gloch yng nghlinic Llanberis. Edrychwn ymlaen i weld mwy ohonoch chwi ddynion yn dod am eich MOT at y gaaf.

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

CLWB GARDDIO: Treuliodd y Clwb Garddio noson ddidorol yng nghartref Sue Lowe, yn cael gweld ei gardd wych a chael cyfle i brynu toriadau o blanhigion ac ati. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol byr hefyd. Mae'r Clwb wedi bod yn ymgynull yn fisol yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis er pan ddechreuodd fis Hydref llynedd a chafwyd sgysiau gan siaradwyr gwâdd am erddi gwerth eu gweld, planhigion Alpaidd, Llysiau llesol, Coed Pin ac amryw o bynciau eraill. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Hydref 13eg. croeso i aelodau newydd.

TELETHON: Fe gasglodd Gavin a Christopher Carr, 86 Maes Padarn £92.12 ar ddydd Llun Telethon. Gwnaethant hyn trwy ddweud y gair hiraf yn y Gymraeg, sef Llanfair PG wrth bawb a oedd yn rhoi arian yn eu pwed y tu allan i Reilffordd y Wyddfa a hefyd ym Mhortdinarwig yn y Ras Raft. Da iawn hogia.

LLWYDDIANT CERDDOROL: Daeth David Whitehouse (19oed) yn drydydd drwy'r wlad yn y gystadleuaeth "Young Musician of the Year" ar y teledu yn ddiweddar. Trombon yw'r offeryn y mae David yn ei chwythu a chafodd glod mawr gan y beirniaid. Wyr Mrs Lottie Jones a'r diweddar John O Jones, Corby yw David. Llongyfarchiadau David oddi wrth y teulu i gyd yn Llanberis. A hefyd gwellhad buan i Ellen ei fam sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar.

BOCSIO: Cynhelir dosbarthiadau Wu Shu Kwan (Chinese Boxing) yn ysgol Dolbadarn bob nos Lun o 7 tan 9 naw o'r gloch o dan ofal Amanda Ward. y mae hi wedi cael hyfforddiant am dair blynedd ac wedi cyflawni ei Belt Ddu. Edrychwn ymlaen i groesawu aelodau newydd.

DIOLCH: Dymuna Edryd diolch i'w berthnasau, cyfeillion a chymdogion am yr anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar yr achlysur o fod yn was i'r Frenhines carys. Diolch hefyd i Anti Meirwen ac Anti Catherine a phwyllgor y Camifal.

YMCHWIL Y GALON: Dymuna pwyllgor Caernarfon a'r cylch o Ymchwil y Galon ddiolch i bawb a fu yn cynorthwyo gyda chasglu o dy i dy ac hefyd am haelioni'r cyhoedd.

Y cyfanswm a gasglwyd oedd £2,186.67. Gasglwyd £160.14 yn Llanberis. Alwena £15.73; Mrs Mary Owen a Mrs Lynne Ellis £9.23; Dilys a Eiddwen £18.31; Carys a Ann £23.67; Mrs Mona Williams a Mrs Sheila Atkin £15.62; Mrs Betty Hughes a Mrs Glenys Owen £13.44; Mrs Ann Jones a Mrs Janet Vaughan £18.32; Mrs Meirwen Jones a Mrs Meira Williams

£19.25; Mrs Eirlys Ellis a Mrs Dorothy Williams £26.57.



CYSTADLEUAETH HARDDWCH: Llongyfarchiadau i Rhiannon Pritchard, Madryn ar ennill y teitl 'Miss Aberfeldy' ar ynys Jersey, tra roedd yno ar ei gwyliau. Bydd ei llun yn cael ei feirniadu ymhellach ynghyd â lluniau 3 merch arall yn y rownd derfynol. Bydd yr enillydd llwyddiannus yn cael gwyliau rhad ac am ddim ar ynys Jersey ym Mis Ionawr.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i bawb o'r pentref sydd wedi bod yn wael unai gartref neu yn yr ysbyty yn y ddau fis diwethaf.

DIOLCH: Dymuna Mrs Enid Lloyd Roberts, 56 Maes Padarn ddiolch i'w theulu, cyfeillion a chymdogion am y cardiau, rhoddion a blodau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac yn Brig y Nant, Bethesda yn ddiweddar.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Ar Fehefin 30, mwynhawyd trip dirgel gan ymweld â Chrefftau Tyn Llan Penmorfa ac yna ymlaen i Westy Castell Cidwm, Betws Garmon lle cafwyd bwyd ardderchog. Diolchwyd ar y bws i Mrs Glenys Jones a Mrs Betty Jones am drefnu'r Trip gan y llywydd. Cynhaliwyd y cyfarfod mis Gorffennaf yn y Ganolfan gyda Mrs Hannah Jones yn llywyddu. Cydymdeimlwyd â Mrs Jane Jones yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith. Dymunwyd yn dda i Mrs Dilys Jones yn ei chartref newydd yn Rhuthun, roedd yn aelod ffyddlon ac yn barod i helpu bob amser. Rhoddodd Mrs Gwyneth Williams, Bethel, adroddiad manwl iawn o weithgareddau AGM yn yr Albert Hall. I ddiweddu'r noson cafwyd cwis wedi ei drefnu gan y llywydd. Diolchwyd i Mrs Williams ac i'r gwestwragedd gan Mrs

Dwynwen Roberts. Y gwestwragedd oedd Mrs Dilys Phillips a Mrs Katie Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Hannah Jones.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Mrs Jane Jones a Clara Allsup yn eu profedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith.

Cydymdeimlwn â theulu Mr Ieuan Gwynedd Jones gynt o East Lynne, Stryd Fawr, Llanberis a fu farw yn ysbyty Groby Road, Leicester, dydd lau 8fed Gorffennaf yn 53 mlwydd oed.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Betty Hughes, Brian, Terry, Linda a Christine a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid sef Mr Bill Hughes (Wil Denbigh).

LLONGYFARCHIADAU: Llongyfarchiadau i'r rhai canlynol ar achlysur genedigaeth eu plant bach:

Gwenda a Raymond Foulkes ar enedigaeth mab; Sheila a Hefin Jones, merch; Mair a Dennis Davies, mab; Jackie a Geraint Jones, merch fach (wyres i Iona a Cledwyn Jones, Afon Terrace); Debra (Ellis gynt), merch; Christine ac Allan Roberts, mab; Carol a Brian Jones, efeilliaid dwy eneth fach; Mr a Mrs Bob Lloyd, 14 Dol Elidir ar fod yn nain a thaid unwaith eto; Bethan a Gwilym, mab bach.

DYWEDDIO: Llongyfarchiadau i Nicola Prydderch ar achlysur ei dyweddiad yn ddiweddar.

PRIODI: Dymunwn yn dda i Peter a Siân ar achlysur eu priodas.

Hefyd i David Petts a Diana ar achlysur eu priodas yn ddiweddar ym Manceinion.

DIOLCH: Dymuna Christine ac Allan ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chyfeillion am yr anrhegion, cardiau a dymuniadau da ar achlysur genedigaeth eu mab bach.

Dymuna Mair a Dennis Davies, Stryd Fawr ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chyfeillion am yr anrhegion, cardiau a dymuniadau da ar achlysur genedigaeth eu mab bach. diolch i bawb.

Dymuna Nicola ac Andrew ddiolch i bawb am yr anrhegion a dymuniadau da ar achlysur eu dyweddiad.

LLONGYFARCHIADAU: Llongyfarchiadau i'r rhai canlynol ar ddatlu eu penblwydd yn ystod mis Gorffennaf ac Awst: Melanie Sellars yn 21; Gillian V Jones yn 18; Wayne Torr yn 18.

CLWB Y MAMAU: Bydd y mudiad uchod yn ail ddechrau ar ôl gwyliau yr haf nos Fercher Medi 7fed yn y Ganolfan am 7.30. Croeso cynnes yn ôl i'r hen aelodau a chroeso i rai newydd.

DIOLCH: Dymunai Melanie Sellars ddiolch i'w theulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur ei phenblwydd yn un ar hugain oed.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Elizabeth Jones, 1 Pentre Castell ar yr achlysur o fod yn hen nain. Ganwyd merch fach i wyres Mrs Jones ar yr un diwrnod ac y ganwyd merch i Dduges Efrog sef ar Awst 8fed.

DYWEDDIO: Llongyfarchiadau i Peter Lewis a Vanessa ar achlysur eu dyweddiad.

DIOLCH: Dymuna Megan a Iorwerth Williams ddiolch yn gynnes iawn i'w ffrindiau a'u cymdogion am bob caredigrwydd a dderbyniodd Iorwerth tra yn yr ysbyty.

Dymuna Carys Mai Parry, 18 Dol Elidir, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar yr achlysur o gael ei choroni'n frenhines carnifal Llanberis am 1988. Diolch hefyd i bwyllgor y Camifal, Mrs Meirwen Bayliss a Mrs Catherine Jones. Diolch yn fawr.

URDD GOBAITH CYMRU

Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Dolbadarn, nos Lun, Medi 19 am 7 o'r gloch i drafod sefydlu Adran Bentref yr Urdd yn Llanberis. Croeso cynnes i bawb sydd gyda diddordeb.

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

YMCHWIL Y GALON: Dymuna Pwyllgor Caernarfon a'r cylch o Ymchwil y Galon, ddiolch i bawb a fu yn cynorthwyo gyda chasglu o dy i dy ac hefyd am haelioni y cyhoedd. Y cyfanswm a gasglwyd oedd £2,186.67. Casglwyd £36.44 yng Nghwmyglo. Mrs Marjorie Roberts £36.44.

YMADAWIAD PRIFATHRO: Yn dilyn penodiad Mr Dafydd Idriswyn Roberts yn brifathro Ysgol Llanrug, ac yn ymadael fel prifathro Ysgol Gymuned Cwm-y-glo, trefnwyd cyfarfod ar ddiwedd y tymor i ddangos gwerthfawrogiad ardalwyr Bryn Refail a Chwmyglo i Mr Roberts am ei lafur haelionus yn ystod ei gyfnod fel prifathro Ysgol y Cwm. Nid yn unig bu'r plant ar eu hennill o dan ei athrawiaeth, rhoddodd hefyd gyfraniad helaeth i weithgareddau allanol yr ardal ar ran y plant a'r athrawon, y rhieni, staff y gegin, y gofalwr a'r llywodraethwyr. Cyflwynodd Mr Llewelyn Hughes Cadeirydd y Llywodraethwyr, sic yn dysteb iddo gan dydmuno hapusrwydd a llwyddiant iddo yn ei swydd newydd.

DIOLCH: Hoffwn gyfleu fy niolchgarwch diffuant i rieni, plant a thrigolion Cwm-y-Glo a Brynrefail am y caredigrwydd a'r cydweithrediad a gefais yn ystod fy nghyfnod fel prifathro yn Ysgol Cwm-y-Glo.

Dymunaf ddiolch yn arbennig am y rhodd anrhydeddus iawn a gefais ar fy ymadawiad.

Diolch yn fawr, Dafydd Idriswyn Roberts.

CYDYMDEIMLWN: â Mrs Linda Parry, 2 Glandwr yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, Mr W Hughes, Stryd y Wyddfa, Llanberis.

DIOLCH: Dymuna Mr Russell Rowlands, Talafon ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

LLONGYFARCHIADAU: i Gwyn Morris, Merddyn, Ceunant (Becws) ar ei lwyddiant o ennill gradd BSc gydag anrhydedd mewn Fferylliaeth yng Ngholeg Caerlyr. Pob dymuniad da i ti yn y dyfodol Gwyn.

Ac i Alison Jones, Arosfa, Fron Gader ar ei llwyddiant yn ei arholiadau Lefel A, a phob dymuniad da iddi yng ngholeg Prifysgol Caergaint, hefyd pob dymuniad da i'w brawd Christopher sydd yn dechrau cwrs Arlunio yng Ngholeg Poletecnic Bryste.

I Beryl ac Islwyn, 7 Dôl Afon ar enedigaeth mab bach, Craig, brawd i Carl.

I Mr a Mrs Sam Jones, Bron Eryri am fod yn nain a thaid am yr eildro.

I Mari a Gethin, 3 Dôl Afon ar enedigaeth merch fach Lona.

I Mr a Mrs Iorwerth Jones, Min y Don am fod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

I Mrs Barbara Owen, Bryn Hyfryd am fod yn nain unwaith eto.

I Mr a Mrs Myrddin Owen, Glandwr am fod yn hen nain a thaid am y trydydd tro, sef i Carl, Craig a Lona.

CLWB PELDROED: Yn anffodus gan nad oes digon o fechgyn yn yr oedran rhwng 13eg a 16eg yn y Cwm ni fydd tîm peldroed dan 16eg yn tymor hwn, ond hyderir y bydd tîm y tymor nesaf, Dymunwn fel pentrefwyr ddiolch o galon i Mr Gwilym Williams, Bryn am yr holl waith diflino mae wedi ei wneud i "hogia Cwm" ers un mlynedd ar ddeg. Diolch yn fawr Cwll.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion, 871327.

DIOLCH: Dymuna Arthur Williams, Pennant, ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a chyfeillion am eu caredigrwydd tra yn Ysbyty Gwynedd, ac ar ôl dychwelyd adref. Diolch hefyd i Staff Ward Prysor am bob gofal.

LLONGYFARCHIADAU: i Neil Glyn Price, Glyn Peris ar ennill Gradd anrhydedd B. Eng (Combined Engineering). Pob dymuniad da i Neil yn ei yrfa yn y dyfodol.

DIOLCH: Dymuna Neil ddiolch i'w ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei lwyddiant yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

LLONGYFARCHIADAU: i Rhiannon a Rhys Llewelyn ar enedigaeth Dylan, brawd bach i Lowri sy'n byw yn Hafod Lwyfog, Ton Teg, Morgannwg Ganol ac i nain a thaid Sir Fôn sef Mr a Mrs Llewelyn Jones, Garth Celyn, Lôn Fferam, Benllech a nain a thaid Nant sef Mr a Mrs Gwilym Searell Jones, Gwynant.

TAITH DDIGEL: Dymuna trigolion y Nant ddiolch yn fawr iawn i Mary Ffranco a Margaret Elis am drefnu trip dirgel nos Wener 19 Awst. Cafwyd amser difyr iawn gan bawb a diolch arbennig i bwyllgor y Carnifal.

LLONGYFARCHION: i Sharon merch Mr a Mrs Goronwy Roberts, 11 Nant y Glyn, Llanrug ar basio ei arholiadau lefel A. Bydd yn parhau ei chwrs addysg yng Ngholeg Aber. Wyres i Mr a Mrs Tom Gwyn Pritchard, Bronallt yw Sharon.

GWELLA: Balch oeddyr o glywed bod Arthur Williams, Pennant a Mrs Myfanwy Thomas, Bron Wyddfa yn gwella ar ôl eu llawdriniaethau yn

Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. **DYMUNIADAU GORAU:** i Mrs Betty Hunphreys yn ei chartref newydd yn Llanberis. Y cyfeiriad newydd yw Nant, Coed y Ddol, Llanberis.

CROESO i'n plith hefyd i Mr a Mrs James Cumberton sy wedi symud i fyw i 3 Gwastadnant, Nant Peris. Mae Ann Caroline yn ferch i Mrs Nancy Closs Williams a'r diweddar William John Williams, Tanybryn. Croeso'n ôl i Gymru iddynt o'r Dwyrain Canol.

LLONGYFARCHION arbennig i John Noel Pritchard a'i wraig ar achlysur eu priodas yng Nghapel Mawr Llanrug, Sadwrn 13eg Awst.

DIOLCH: Ein diolch cynhesaf i Mary Ffranco Roberts am roi'r newyddion i'r Eco ers i Mrs Jean Elis symud o'r Nant. Diolch yn fawr iddynt hwythau.

GOHEBYDD NEWYDD: Mar Mrs Mary Ffranco Roberts wedi rhoi'r gorau i fod yn ohebydd newyddion dros Nant Peris. Carem ddiolch iddi am y gwaith a wnaeth yn y gorffennol a hoffem pe bae rhywun arall o'r pentref yn gwirfoddoli i anfon pytau o newyddion i'r golygydd. Ni all unrhyw ohebydd pentref wybod am bopeth sy'n mynd ymlaen felly mae'n ofynnol i'r trigolion hysbysu'r gohebydd. Gwaith hawdd iawn wedyn iddo fydd eu trosglwyddo i'r golygydd. Apeliwn atoch i ystyried hyn i sicrhau parhad colofn Nant Peris yn Eco'r Wyddfa. Diolch i'r ddau gyfaill wnaeth anfon newyddion y mis hwn. (GOL).

GOFALAETH UNEDIG DEINIOLLEN, LLANBERIS A NANT PERIS

Nos Iau Mehefin 23ain, cynhaliwyd cyfarfod gollwng Y Parch Trefor Lewis o fod yn Weinidog yn yr ofalaeth uchod. Cynhaliwyd y gwasanaeth yng Nghapel Ebenezer Deiniolen a llywyddwyd gan Mr T Ll Jones, cyn Lywydd Henaduriaeth Arfon. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchedigion A. Hawkins, E. Blainey, Gwynfor Williams, W.R. Williams, Eifion W. Williams, Stanley John, Ifor L. Williams, Richard Jones, Mr Gwyn Parri, Mr Robert Williams a Mr Gwilym S Jones. Ar ddiwedd y cyfarfod anrhegwyd Parch a Mrs T. Lewis, Dewi a Dyfrig ar ran yr Ofalaeth gan Mr Ifor G Efans, Mrs M.C. Griffith a Mr Gareth Morris.

Bydd y Parchedig D J Pritchard yn dechrau fel Gweinidog yr Ofalaeth Hydref 1af a chynhelir ei Gyfarfod Sefydlu yng Nghapel Coch Llanberis Hydref 6ed am saith o'r gloch. Hydref 7fed ceir pregeth gan Parch Dr R Tudur Jones yng Nghewn y Waun, Deiniolen am saith. Croeso cynnes i'r ddau gyfarfod.

SÊL CIST CAR

**Iard Ysgol
Gymuned
Cwm-y-Glo**

**Sadwrn 24ain Medi
10 tan 1 o'r gloch**

£3 y car

Elw i Apêl Eisteddfod
Genedlaethol yr Urdd Dyffryn
Nantlle ac Arfon 1990

*Croeso i bawb
Dim masnachwyr*

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580


YMCHWIL Y GALON: Dymuna pwyllgor Caernarfon a'r Cylch o Ymchwil y Galon, ddiolch i bawb a fu yn cynorthwyo gyda chasglu o dy i dy ac hefyd am haelioni y cyhoedd. Y cyfanswm a gasglwyd oedd £2, 186.67 Casglwyd £41.71 yn Brynrefail. Mrs Eirlys Williams £22.88; Mrs Eironwy Roberts £18.83.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Lun Gorffennaf 11eg, cyfarfu'r aelodau yn y Ffestri dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Yn dilyn trafod cynnwys llythyr y mis, cafwyd noson amrywiol. Trefnwyd cwis diddorol gan Mrs Mair Jones yn cael ei chynorthwyo gan Mrs Jean Davies. I gloi'r noson, dan arweiniad Mrs Pat Jones bu'r aelodau yn llawn brwdfrydedd yn cynllunio a gwneud clustdysau o bob math.

Diolchwyd i bawb gan Mrs Jennie Roberts. Paratowyd lluniaeth y noson gan Mrs Blodwen Roberts a Mrs Mai Parry a diolchwyd iddynt gan Miss Lowri Roberts. Enillwyd gwobr y mis gan Mrs Mai Parry. Bydd y cyfarfod nesaf, nos Lun Medi 19eg.

GWIBDAITH: Nos Wener, Mehefin 24ain bu aelodau Capel MC Brynrefail ar ymweliad â Chanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn. Roedd yn brofiad arbennig cyrchu tuag yno ar noson mor hafaidd. Cafodd pawb wir fwynhad o gael eu tywys o amgylch yr adeiladau a chael sgwrs gan un o arweinwyr y Ganolfan am y gweithgareddau a gynhelir yno. Mwynhawyd lluniaeth penigamp yng nghaffi Meinir cyn troi tuag adref. Mawr ddiolch i gyfeillion yr Ysgol Sul am drefnu'r daith.

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampwl o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

**AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...**



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Y MAIDD GLAS HEN FFASIWN

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Meddai Mrs E Jones, Talsarnau wrthyf rai blynyddoedd yn ôl, mewn llythyr

"Cofiaf fy mam yn gwneud maidd yn rheolaidd yn yr amser gynt. Yn ystod Mehefin a Gorffennaf pan fyddai'r bwyd wedi dod ar y ddaear a'r gwartheg yn cynhyrchu digonedd o laeth dyna'r adeg i wneud caws, a rhaid oedd cael y "Maidd Glas" adawyd ar ôl wrth wneud caws i allu gwneud y maidd arall

"Yn gyntaf rhaid oedd rhoi llefrith y nos mewn padell bridd. Ar ôl godro bore drannoeth rhoi dipyn o'r llefrith ffres ar ei ben a'i gymysgu ac yna ei adael am tua awr a hanner.

"Yna rhaid oedd ei gynhesu i wres y gwaed trwy ei adael i sefyll mewn piser mewn dŵr poeth. Ei dywallt drachefn yn ôl i'r badell.

"Byddai yn awr yn barod i'w geulo. Arferai fy mam gael "bol cwar" gan y cigydd i'w roi yn y llaeth i'w geulo. Yn stumog llo bach y ceid y "bol cwar" gan y lleddid llawer o loi ieuanc yr adeg honno i gael eu cig (veal)".

Aiff Mrs Jones ymlaen i sôn am rennet fel hyn

"Yn ddiweddarach gellid prynu "rennet" at y pwrpas oddi wrth Fullwood and Bland o Gaer."

"Roedd yn stwff cryf iawn ac nid oedd eisiau ond ychydig o honno i geulo'r llaeth. edrychai yn debyg i "junket" ond ei fod ychydig yn dewach.

"Wedi i'r llaeth yn cynwys y bol cwar neu rennet sefyll am tuag awr, torri'r cymysgedd gyda soser bren a'i adael am ychydig wedyn. Erbyn hyn deuai'r d'wr melyn las i'r golwg (neu'r maidd) a rhaid oedd ei godi gyda soser bren fel y deuai i'w wyneb. Yna rhoi tro iddo drachefn a dal i godi'r maidd oddi arno nes byddai yn grawn yn sych. Yna malai fy mam y grawn gaws gyda'i dwylo a'i chymysgu gydag ychydig o halen. Rhoddid llechen las drosto mewn dysgl bridd a'i adael nes buasai digon i wneud cosyn.

"I wneud y maidd defnyddiwyd yn gyson ar y ffermydd yr adeg honno y badell efydd. Rhoi bwcedaid o'r "maidd glas" ar y tân yn y badell efydd. Pan oedd yn codi berw tywallt dysgliad o lefrith yn araf iddo. Yna gadael iddo godi berw drachefn ond y tro hwn tywallt dysglaid o laeth enwyn iddo. Erbyn hyn byddai wedi torri yn lymphiau gwynion yn y maidd glas. Wedi rhoi ychydig o halen ar ei wyneb byddai'n barod i'w godi i'r

badell bridd i oeri.

"Roedd yn fwyd a diod hynod o flasus a maethlon i'w fwya gyda brechdan neu fara ceirch.

"Cofiaf mor gymeradwy oedd os oedd rhywun yn wael a byddai llawer o gyrchu yma i nôl maidd iddynt.

"Ers llawer dydd mae'r badell efydd yn segur ond yn dal ar y silff ben tan wedi ei glanhau fel ernes o'r hyn a gyflawnodd gynt."

Bai

Ynwyf y mae cyn fy mod - ni fûm heb

Fy mai o'm babandod

Oes gwisg a'm cudd, oes gysgod

Neu waed ychydig fai? Diolch fod!

Eifion Wyn

Gwrid

Goch y gwin wyt degwch gwedd - to'n gwaed

Ystaen gwag a chamwedd

Morwynol fflam rhanedd

Swyn y byw, rhosyn y bedd.

Eifion Wyn

Yr Hen Drefn

O gofio fod gwlad gyfan - yn dewis

Eu diwedd mewn purdan,

Da yw gweled fod gwylan

Eisiau lle ar bwys y Llan.

J. Rowlands

A OES GOBAITH A OES DYFODOL?

Yn dilyn y llwyddiant mawr blynyddol gyda channoedd yn mynychu'r cyrsiau Ysgolion Sul yn y Gogledd dan nawdd Adran Efyddiau Allanol Coleg y Brifysgol Bangor a Chanolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol mewn cydweithrediad â Chyngor Ysgolion Sul Cymru, trefnwyd cyfres eto eleni yn yr un canolfannau yn ystod mis Medi. Bydd tri grwp ym mhob cwrw gyda grwp athrawon plant dan 11 oed o dan ofal Miss Delyth Oswy Davies (Swyddog Datblygu'r Gogledd); grwp athrawon 11-18 oed o dan arweiniad y Parchg. Gwilym Ceiriog Evans (Ysgrifennydd y Cyngor Ysgolion Sul) a grwp dosbarthiadau oedolion dan arweiniad y Parchg. Athro Gwilym H. Jones (Cyda-wdwr yr Esboniad).

Gan nad oes llawlyfrau newydd i'r dosbarthiadau dan 14 eleni fe ystyrir egwyddorion cyffredinol yn ogystal â chyflwyno deunydd penodol. Bydd hwn yn gyfle gwyb felly i holl arweinwyr eglwysig, yn ogystal ag athrawon ysgolion Sul, i fynychu'r cyrsiau er mwyn cael clywed awgrymiadau, ac i ystyried a thrafod y goblygiadau i'r eglwys leol. Rhydd gyfle hefyd i'r nifer sylweddol o eglwysy sy, ysywaeth, heb ysgol Sul o gwbl i ddod i drafod gydag arbenigwyr, ac eraill, yr angen am Ysgol Sul, a'i natur yn yr 80au. Oe oes gennydd ddiddordeb yn nyfodol y dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru dylech chi fod yno.

Y ganolfan i ddalgylch yr Eco fydd Caernarfon, Capel Ebeneser, Nos Fercher, Medi 7ed.

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau yma fod ar silffoedd eich llyfrgelloedd a'ch siopau llyfrau lleol.

Migl Magl

Migl a Magl yn Mynd ar Daith

gan Brian Anson

Y Lolfa 95c yr un

Cyfras newydd o lyfrau syml, lliwgar

ar gyfer plant 2-4 oed.

Baneri'r Beibl

Aberystwyth £1.50

Llyfryn i gydlyn ag arddangosfa dei-

thiol o faneri'n cynrychioli llyfrau'r

Beibl

Y Can Gair cyntaf

Addasiad Roger Boore

Gwasg y Dref Wen £3.95

Llyfr sy'n cyflwyno'r "can gair cyntaf" i

Gymry Cymraeg ifainc neu i ddysg-

wyr.

Y Babi

Y Ci

Y Flanced

Yr Ysgol

Gan John Burningham

Mudiad Ysgolion Meithrin

£1.95 yr un

Pedwar o lyfrau syml, lliwgar, ar gyfer

y plant lleiaf.

Marwolaeth Llywelyn ap Gruffudd: Y

Gwirionedd

Gan Anthony Edwards

Anthony Edwards £1.95

Ymgais i geisio egluro'r 'gwirionedd'

am farwolaeth Llywelyn ap Gruffudd.

Hedda Gabler

Gan Henrik Ibsen

Hughes a'i Fab £2.95

Cyfieithiad i'r Gymraeg o ddrama

Henrik Ibsen.

Dyddiau Lobsgows yn Lerpwl

T'yr John Penry £4.50

Atgofion am "brifddinas Gogledd

Cymru" gan un a fagwyd yno.

Gloywi Iait

gan R.M. Jones

Cyrol 1 2 a 3

Gwasg Prifysgol Cymru

£9.95 am set

Tair cyrol gloywi iait, wedi'u

bwriadu'n bennaf ar gyfer myfyrwyr

cwrw gradd.

Beibl i Gymru

gan Prys Morgan

Pwyllgor Dathlu

Pedwarcanmlwyddiant Cyfieithu'r

Beibl/Gwasg Cambria

£3.50 clawr meddal. £5.95 clawr

caled

Cyrol yn adrodd stori cyfieithu'r Beibl

i'r Gymraeg gan William Morgan

Gerallt ar Gychwyn

Gerallt mewn Mynachlog

Gerallt yn y Gogledd

Hughes a'i Fab/Cadw

75c yr un.

Tri llyfryn yn adrodd stori Gerallt

Gymro

Gan Robert M Morris

Mathemateg: Cwestiynau TGAU 3

addasiad John Wyn Owen

Y Ganolfan Adnoddau,

Aberystwyth £1.25

Casgliad o bapurau enghreifftiol

Mathemateg (SMP)

Pe Medrwn yr Iait ac Ysgrifau Eraill

Goln. Tony Brown a Bedwyr Lewis

Jones

Christopher Davies £4.50

Casgliad o ysgrifau R.S. Thomas

Enwau Tafarnau Cymru

gan Myrddin ap Dafydd

Gwasg Carreg Gwalch

£1.75

Golwg ar ystyr a hanes enwau rhai o

dafarnau Cymru. (Llyfrau Llafar

Gwlad)

Cyfrinach Afon Ddu

gan Eirlys Gruffydd

Y Trysor yn y Fynwent

gan J. Selwyn Lloyd

Gwasg Gomer

£1.75 yr un

Y llyfrau diweddaraf mewn cyfres o

nofelau byrion i blant 7-10 oed.

(Cyfres Corryn)

Cymru'r Cynfas: Wales on Canvas

gan Hywel Harries

Y Lolfa

£8.50

Cyrol ddwyieithog yn cyflwyno

gwaith pymtheg artist cyfoes.

Atgofion Ditectif yn Lerpwl

gan Evie O. Humphreys

Gwasg Dwyfor £2.75

Hanes bron dwsin o'r achosion y bu'r

awdur yn ymwneud â hwy fel ditectif

yn Lerpwl.

Gawn ni Stori? Cyrol 1

gan John Owen Huws

Gwasg Carreg Gwalch

£1.80

Casgliad o chwech o straeon gwerin

Cymru wedi'u haddasu ar gyfer plant

6-10 oed.

Garddiwch!

gan Llew Huxley

Y Lolfa £3.45

Llyfr ymarferol ar arddio, wei'i ran-

nu'n hwylys ae gyfer pob mis o'r

flwyddyn. (Cyfres Byw Heddiw).

Y T'yr ar y Clogwyn

gan Gwenno Hywyn

Gwasg Gwynedd

£2.50

Beth yw dirgelwch yr hen d'yr ar y

Clogwyn? Ceisia Bethan a Gwen

ddarganfod ei gyfrinach.

Bobi a Sami

gan W.S. Jones

Gwasg Carreg Gwalch

60c

Y ddiweddaraf mewn cyfres o

ddram'au byrion. (Cyfres y Llwyfan)

Llyfr Cwis y Beibl

Gan Si'an Lewis

Gwasg Gomer £2.50

Llyfr cwis i blant, wedi'i selio ar y

Beibl.

Y Canol Llonydd

gan Elan Closs Stephens

Cymdeithas Theatr Cymru

£1.25

Darlith ar ddram'au'r Dr John

Gwilym Jones. (Astudiaethau Theatr

Cymru)

Siarada Di!... Yn Ffrangeg

Gan Gillian Taylor

(Addasiad Meirion G. Davies)

Y Ganolfan Adnoddau,

Aberystwyth £2.95

Llyfryn ar gyfer y rhai sy'n dymuno

magu hyder wrth siarad yn Ffrangeg.

Arbennig o addas i'r rhai sy'n sefyll

arholiad TGAU mewn Ffrangeg.

Popeth am UFO'S

gan Ted Wilding-White

(Addas. Ieuan Griffith)

Gwasg Gomer

£2.50

Cyrol sy'n archwilio hanes rhyfedd

soseri heddog, astronots estron, a

dirgelion eraill yr wybren. (Cyfres Byd

yr Anhysbys).

PRINT BRAS

Cyn Oeri'r Gwaed

Cyngor Llyfrau £4.25

Ysgirfau Islwyn Ffowc Elis

£1.75

Rwbath at yr achos

Cyngor Llyfrau £5.25

Ysgrifau

William Owen

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

* Gwasanaeth 7 diwrnod

* O ddrws i ddrws

* Control Deuol

D

L

PRITCHARD

43 Glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran

Drafnidiaeth

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod o'r sefydliad yn y Ganolfan ar Gorrffennaf 4ydd o dan arweiniad Mrs J Eirlys Williams y llywydd. Darllenodd Mrs Williams y llythyr misol a darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd. Croesawodd Mrs Williams y wraig wadd sef Mrs Dilys Edwards Caernarfon. Cawsom noson difyr gan Mrs Edwards yn trafod yr AGM yn Llundain. Cafwyd adroddiad manwl iawn ganddi. Diolchwyd i Mrs Edwards gan Miss Beti Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirian Jones a Mrs Glenys Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Betty Williams. Mi fuo Miss Jean Moelle a Mrs Marion Williams yn cynrychioli Sefydliad Deiniolen mewn Chwist yn Caernarfon mis Mehefin. Llongyfarchwyd Mrs Einir Wyn Williams merch yng nghyfraith Mrs J Eirlys Williams ar ei llwyddiant yn ennill gradd B Ed. Bydd y Cyfarfod nesaf ar Fedi 5ed pan ddisgwylir Mrs Maureen Rhys i sôn am ei gwaith fel actores.

LLONGYFARCHIADAU i Carol Ann Jones, 7 Lôn Las sydd yn nyrs yn Ysbyty Gwynedd ar lwyddo yn ei arholiadau SRN. Pob dymuniad da ar gyfer y dyfodol.

CLWB 200 Y SEINDORF: Mis Gorrffennaf. 1. £20 Mr I W Griffiths, Caernarfon; 2. £15 D W Jones, 3 Rhydfadog; 3. £10 Meinir Williams, Bethel. Enillwyd mis Awst oedd: 1af. £20 Mr G W Jones, 3 Rhydfadog.

2il. £15, Ann Joanidi, Lliffon, Clwt y Bont. 3ydd. £10, Berwyn Jones, Minafon, Clwt y Bont.

DIOLCH: Dymuna Neville Thorman-Jones a'r teulu ddiolch yn ddiffuant i bawb ym Mro yr Eco am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Diolch am y llu cardiau a'r rhoddion hael tuag ar ymchwil y cancr. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mrs Kathy Evans, 5 Tai Gweledfa ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau a'i chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi yn ei phrofedigaeth o golli ei thad. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Mrs A Jones, Regent House, ddiolch o galon i'w theulu a chyfeillion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch hefyd i staff Ward Glyder am eu gofal caredig.

Hefyd dymuna Mr J Jones ddiolch am y caridau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ei brofedigaeth o golli brawd yn Rhydaman, Dyfed.

YMCHWIL Y GALON: Dymuna pwyllgor Caernarfon a'r cylch o Ymchwil y Galon ddiolch i bawb a fu yn cynorthwyo gyda chasglu o dy i dy ac hefyd am haelioni'r cyhoedd. Y cyfanswm a gasglwyd oedd £2,186.67. Casglwyd £64.73 yn deiniolen. G H Williams £10.75; Mrs Betty Williams a Mrs Marian Wyn Williams £11.72; Miss J Moeller £13.28; Mrs Eirian Jones £21.25; Miss Betty Williams £6.23; Mrs Betty W Davies £1.50.



Dau lun o Ysgol Llandinorwig, ysgol y Garnedd fel y'i gelwid tua'r flwyddyn 1937-8. Ple maen't heddiw tybed? Y lluniau gan Mr James Grindly, Clwt y Bont.

DRAENOG - neu rhywbeth arall i bigo!

A oes gwir yn y stori
Fod Annette a Gwyn Parri
'Di cael antur bach estra'n y Brifwyl?
A fu'r athro a'r cyfeilydd
Tra i lawr yng Nghasnewydd,
Bron cysgu ynghanol trychfilod?

Os gwir ydi'r stori
Roedd y teulu bach Parri
Am gael carafan yno i aros,
Ond roedd 'na deulu bach pigog
Wedi cartrefu 'mhob clustog
Yn disgwyl am gwmni am wythnos.

Annette a fu'n ll'gadog,
Gweld tenantiaid bach chweiniog
Yn sbocio fel Glyn Jones Pendyrus.
Roeddau nhw'n hedfan fel 'rockets'
A chymaint a 'chrochets'
A dim gobaith am 'rest' bach gysurus.

Roedd y 'Cosi Fan Tutti'
Yn saff yn ei bwt hi
Ond fan hyn roedd 'na chweiniog
gyfeiliant;
Felly cyn iddi nosi
Ac i bawb ddechrau cosi
Roedd Annette wedi pacio'i hen nodiant.

Roedd Gwyn wrth ei chynffon
Yn ffoi rhag y c'nafon
I glydwch hotel yn Sir Fynwy.
Fy nghyngor, Gwyn Parri,
Ar faes prifwyl Cymru
Yw powdwr rhag chwyn Dyffryn Conwy.



OSMOND SHAW
DEINIOLEN

Gwerthu
a Thrwsio
Teledu Lliw Newydd

ac Fel Newydd

GWASANAETH

FFON 24AWR

LLANBERIS 870545



Dyma lun o adran cymorth cyntaf St Ioan yn gwersyllu yn Neganwy 1940. Y mae tri o Ddeiniolen yn y llun: yn sefyll yn ail o'r chwith mae Dafydd Munro; y cyntaf ar y dde yn sefyll yw Berti Rowlinson; y trydydd ar y dde yn sefyll yw David Jones a'r pedwerydd yn sefyll yw Mr G Jones, perchennog y llun. O flaen Mr Jones yn eistedd mae Sir Michael Duff, perchennog y Faenol a Chwarel Dinorwig ar y pryd. Pwy yw'r lleill tybed?

Diolch i Mr G Jones, 51 Pentre Helen am anfon y llun i'r Eco.

Joelas

CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

**CABS
THOMAS
DEINIOLEN**

**Gwasanaeth 24 awr
Ffôn: Llanberis 871049**

DIOLCH:

Dymunaf drwy gyfrwng yr Eco ddiolch yn gynnes iawn i Brifathro ac athrawon Ysgol Gwaun Gynfi, y cyn athrawon, staff y gegin a'r gofawyr ddoe a heddiw, y plant i gyd a'u rhieni, cyn ddisgyblion a ffrindiau am y llu o gardiau ac anrhegion gwerthfawr a dderbyniais ar achlysur fy ymddeoliad ddiwedd tymor yr haf. Bûm yn hynod o hapus yn yr ysgol am y 37 o flynyddoedd ac mae ardalwyr Deiniolen a'r bydd yn agos iawn at fy nghalon. Bydd yr atgofion sydd gennyf amdanoch i gyd yn rhai melyn iawn. Diolch yn fawr iawn i bawb. Nancy E Jones, Meillionydd, Penisarwaun.

Cyfarchion oddi wrth staff y gegin i Mrs Nancy Jones ar eich ymddeoliad Gorfen haf a gorffen gyrfa Dyna heddiw a ddigwydd yma, I Frenhines athrawon Ysgol Gwaun Gynfi Daeth terfyn ar dymor dysgu Nancy.

Yma yr arhosodd ar hyd ei gyrfa Yn wyn ei byd gyda'r plant a'i llyfra, Bu yn athrawes a mam i genedlaetha Cymysglyd yw heddiw i Nancy Edwina.

Serch hynny derbyniodd fraint a bodhad O weld llwyddiant y cynnyrch a ddaeth o'r hâd, Eich cysur a'ch gwobr a rydd i chwi fwynt Fydd cofio, miri, sgrechian, a gonestrwydd y plant a dilyn eu llwyddiant.

Diolchwn, ac eiddunwn i chwi iechyd i fwynhau'r ymddeol Cael crwydro, a garddio, yn rhydd o bob rheol, Mwynhau y Pethe, a chael perffaith lonydd Yng nghwmni'r teulu yn nhawelwch Meillionydd.

Cofiwch alw pan yn Neiniolen Gwyddoch y cewch groeso gwresog a llawen, A cewch ginio sbesial, "on the house" Mi ofala i, na fydd yn cynnwys caws.

Ar eich ymddeoliad yn 1988

Mae'r pry cop hynaf Wedi ymddeol ers tro Ond anodd iawn credu Wrth ei gweld ar y "go".

Aeth y pry cop canol I'w dilyn, mhen dipyn A hithau'n hamddenol Fwynhau pob munudun.

A nawr dyma'r olaf O'r tri yn ymddeol, Dim ffwdan byth eto I gyrraedd yr ysgol.

Caiff gymryd ei hamser Dros frewast a chinio, A neb yn i swnian Fod rhywun di brifo.

Ei gwr wêl y fantais Cael gwraig adre, i wnio Botymau er ei drowsus A'i grys wedi ei smwddio.

A'r mab yntau, a'i jeans Wedi'i golchi yn barod "Grêtl car mam ar gael rwan Mewn hindda a chawod."

A beth am ei man hi? Fydd hi'n colli ei lle? Na. Bydd Nansi a hithau'n Yfed paneidiau o de.

Gobeithio cewch iechyd I fwynhau eich seibiant Hir oes ar eich penswn A llawer o fwyniant.

Ein dymuniadau gorau oddi wrth y ddau bry cop sy'n brofiadol iawn o nôl eu penswn.

HARDDWCH YR WYL FLODAU



Blodau, bara, llysiau a ffrwythau



Aelodau o Undeb y Mamau fu'n trefnu'r Wyl.

GWYL FLODAU: Cynhaliwyd Gwyl Flodau lwyddiannus dros ben dan nawdd Undeb y Mamau, yn Eglwys Crist, Llanddinorwig o fore Gwener hyd nos Sul 22-24 Gorffennaf, 1988. Hon oedd yr Wyl flodau gyntaf yn

hanes y plwyf ac yr oedd yr Eglwys wedi ei haddurno'n brydferth iawn â gwahanol arddangosfeydd bychain i bortreadu adnoddau arbennig o'r Salmau. Cafwyd Cymun Bendigaid bore Gwener i'w chychwyn ac fel diwedd glo cafwyd cymantfa ganu.



Arddangosfa hardd o flodau

YN EISIAU: Gwybodaeth am Undeb y Mamau yn y cylch o gyfnod cynnar y ganrif. Byddai lluniau hefyd yn dderbyniol iawn a chymerir gofal mawr ohonynt. Ysgrifennwch at y Parch Tegid Roberts, Arwel, Llanrug.

Emyr Jones

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

**Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau**

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



**MERCHED ...
DYNION ...
PLANT ...**



**I gael trin eich gwallt yn
eich cartref cysylltwch â**

SIAN

**MARIANNEDD, LLANRUG
Ffôn: CAERNARFON 5366**

**I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
MENAI SEWING
MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
BANGOR
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc**

**E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: 870202 a 870272

**TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI**

**IEUAN
WILLIAMS**

**Glanffrwd
DEINIOLLEN
Llanberis 870484**

* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a
Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr
a phlant ysgol

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

**FFÔN:
LLANBERIS 871470**

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

**GERAINT
OWEN**

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

**Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR**

**Ffôn:
Waunfawr 552**

JÔCS!

MAM: Wyt ti'n hoffi'r ysgol Huw bach?

HUW: Dwi'n hoffi mynd i'r ysgol, a dwi'n hoffi dod yn ôl o'r ysgol - y cyfnod rhwng y ddau sy'n gas gen i!
Ha ha - Hi hi!



Beth ydych chi'n ei roi i eliffant?
Digon o le!!
Ha ha - ho ho!!



**MAE'R JÔCS
NESA'N WELL BYTH!**

Beth sy'n gwlychu wrth sychu?
Tywel.

Beth sy'n beryglus ac yn byw o dan y ddaear?
Twrch daear ar gefn moto beic!!

DIC: Docor, dwi'n cael poen ofnadwy yn fy llygaid bob tro y bydai'n yfed paned o de.

DOCTOR: Mi fuasai'n syniad da i dynnu'r llwy allan o'r gwpan i ddechrau!!!

LLWYTH LORI O GYMERIADAU



GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

ECO'R IFANC

I ble'r aeth y gwyliau haf dywedwch?

Wythnosau lu wedi hedfan heibio, ac rwan mae'n amser dychwelyd i'r ysgol.


Gawsoch chi wyliau braf? Fuoach chi yn rhywle diddorol?

Os buoch chi'n ddigon ffodus i fynd i ffwrdd ar eich gwyliau - beth am ddweud ychydig o'r hanes wrthym ni yn y Gornel. Cofiwch, eich cornel chi ydy hon - sgwennwch i mewn da chi!

Rydym ni angen eich storïau, jôcs, lluniau, pês yn y Gornel.

BETH YDYN NHW ?

Dyfalwch beth yw'r lluniau canlynol, a cheisiwch roi atebion eich hunain.




1. Ai (a) Dafad yn dringo wyneb y graig?

neu

(b) Cwmwl yn cuddio tu ôl i goeden?

neu



2. Ai (a) Drwyn mochyn ydy' o?

neu

(b) Ddau "biff byrgyr" wedi llosgi ar blât?

neu




3. Ai (a) Tomato enfawr ydy' o?

neu

(b) Bry' copyn yn hognian o'r nenfwd

neu



4. Ai (a) Pry genwair ar frys ydy o?

neu

(b) Llanw'n dod i mewn?

neu

Fedrwch chi greu lluniau eich hunain? Fe gewch chi hwyl fawr yn creu rhai doniol rwy'n siwr.

Beth am anfon eich cynigion i'r Gornel? Fe fydd 'na wob'r i'r llun mwyaf gwreiddiol a doniol.

Iawn? Ewch ati ar unwaith. Papur a phensil yn barod?!!

**HOME IMPROVEMENT
CENTRE**

FFORDD YR ORSAF, LLANRUG

Ffôn: C'fon 2122

ar gyfer...

Paent, Papur wal,
Anghenion addurno,
Coed, Tywod, Gro,
Brics, Blociau,
a Sment,
Offer plymio

Anghenion Tŷ,
Garddio,
Hadau Unwin,
Hardware, nwyddau
Ironmonger
Teganau

CORNEL Y PLANT IAU



IOLŌ'R MORLO

Dyma Iolo'r Morlo yn cael tamaid o fwyd gan ei feistr Ifan.

Un, dau, tri "Ceg ar agor"

Wel dyna damaid blasus. Ysgwn i

beth sydd i bwddin?

Fedrwch chi liwio'r llun yn ofalus?

Edrychwch ar y rhifau sy'n nodi'r lliwiau priodol.

1. llwyd

2. melyn

3. glas

4. coch

5. gwyrdd

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

GWILYM H. WILLIAMS BRYN DAIRY 2 BRYNHYFRYD BETHEL

Ffôn

Port Dinorwig 670786



Llefrith

Llaeth Porfa

Llaeth heb Hufen

Wyau, Tatws

Diodydd

Ffrwythau

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug

Ffôn: Caernarfon

76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser



I weled ein crôg fasgedi – a'r grug
Sydd mor grand, a pherthi
O goed fyrdd, i wyrdd erddi
Dowch oll i'r Antur, da chwi

CANOLFAN ARDD ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Am flodau gardd i harddu – a llysiau
Sy'n llesol i'r teulu
Ewch heibio i archebu
Yno lwyth planhigion lu

* GRUG
* ALPAU
* PERTHI
* LLYSIAU

Gwasanaeth NEWYDD
ar garreg eich drws

SEGONTIUM CAR · VAN HIRE

Cerbydau Pickup, Luton, Cargo a Bysus Mini

Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir

UNED 5, STAD CIBYN

CAERNARFON Ffôn: 2013

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)



ANRHYDEDD: Llongyfarchiadau calonnog i Olwen Jones, Pant Hywel ar yr anrhyddedd o gael ei derbyn yn aelod o Gerddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru. Newydd ddychweilyd y mae Olwen o daith gyngherddau gyda'r Gerddorfa yng Ngorllewin yr Almaen. Nid rhyfedd ei bod wedi cael ei derbyn yn aelod ddibynnol o'r gerddorfa gan iddi lwyddo yr haf yma mewn dau arholiad cerddorol, Gradd 7 gyda theilyngdod (merit) ar y piano a Gradd 8 gydag anrhyddedd (Distinction) ar y Fiola. Dyma'r offeryn y mae'n ei channu yn y Gerddorfa. Ardderchog Olwen!

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i bawb ohonoch chi blant fu'n sefyll arholiadau'r Cyd Bwyllgor Addysg eleni.

PWYLLGOR NEUADD: Tynnwyd Clwb Cant, Gorfennaf yn Sycharth. Dyma'e enillwyr. 1. Mr Ken Williams, Trem Cynfi, 2. Mr Brian Jones, Perthi, 3. Mr Dafydd Owen, Bryn Hyfryd. **CLWB CANT AWST** a dynwyd yn Sycharth Nos Wener Awat 27 ain. 1af. Leslie Larsen, 2il. Mrs C Roberts, 3 Tai Arthur, 3ydd. RG Hughes, 1 Bryn hyfryd.

YSGOL TAN Y COED: Dymunwn yn dda i'r plant a'n gadawodd fis Gorfennaf i ddechrau eu gyrfa addysgol yn yr Ysgol Uwchradd, sef Elizabeth Ann, Rhian, Nia Sioned, Osian, Llyr, Owen a Jonathan. Yn y rhifyn nesaf siawn na chawn enwi rhai bychan a ddaeth atom o'r newydd. Dymunwn bopb hapusrwudd hefyd i Jonathan a Russell Richards sy'n symud i'r De.

GWELLHAD: Rydym yn hynod falch o weld Mr Eurwyn Jones, Camelot yn gwella wedi triniaeth i'w glun. Gobeithio hefyd fod pawb sydd wedi bod yn sâl yn gwella. Ein cofion atoch igyd.

PROFEDIGAETH: Wedi gwaeldd byr, bu farw Mrs Gwen Lewis, 6 Llys y Gwynr, ddydd Sul, Gorfennaf 3ydd yn 78 mlwydd oed. Ein cydymdeimlad dwysaf â Herbert, Haydn a Hazel a'r teulu oll yn eu colled lem. Cydymdeimlwn hefyd â Mr Wyn Roberts, Racca a'r teulu, yntau wedi colli'i chwaer yn Rhostryfan. By farw Mr Napier Williams, gynt o Tai Arthur, Waen. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll.

YMDDEOLIAD: Wedi 37 mlynedd o ffyddlondeb i blant ac Ysgol Gwaun Gynfi Deiniolen, ffarweliodd Mrs Nansi Jones, Meilonydd â'r ystafell ddisbarth a oedd mor annwyl iddi rwy'n siwr. Dymunwn ymddeoliad hapus a dedwydd ichwi.

LLONGYFARCHIADAU: Pob dymuniad da i Sandra Jones a ddathlodd ei phenblwydd yn 21ain yn ddiweddar. Dymuniadau da hefyd i Rhian Price Williams, Cae'r Bythod ar gyrraedd 18 oed ar Orffennaf 31.

Fore Sadwrn, Gorfennaf 30ain gyda'r Parch Tegid Roberts yn gweinyddu, priodwyd Alison Wyn Jones a Carl Wannop yn Eglwys Santes Helen. Pob lwc a hapusrwydd i'r dyfodol. Yr un diwrnod priodwyd Alun a Nia Mowll ynf Nghapel Cana, Llanddaniel. Pob dymuniad da iddynt hwythau.

LLONGYFARCHIADAU: i Dilwyn Green Rhoswian ar ei lwyddiant yn ddiweddar yn arddangos ier mewn sioeau.

BEDYDD: Dydd Sul 14eg Awst, yng Nghapel Bosra bedyddiwyd Osian Wyn, mab Bronwen a Kevin Jones gan y Parch Eryl Blainey.

EGLWYS SANTES HELEN: Ddydd Sul, Gorfennaf 24 cysegrwyd dau glustog penlinio gwyn, rhodd Undeb y Mamau a saith clustog penlinio arall, rhodd er cof gan deulu y ddiweddar Mrs Katie Williams, Deiniolen.

TRIP YR YSGOLION SUL: Cafwyd Trip Ysgol Sul bendithiol eleni. Carem ddiolch i Mr Tegid Roberts am gysylltu a threfnu gydag Esgob Llanellwy i ni i gyd gael ymweld â'r Gadeirlan hardd a chofeb y Cyfieithwyr yn Llanellwy. Ein diolch hefyd i'r Esgob am ein cyfarod yno a chyflwyno cerdyn post o wyneb ddalen Beibl William Morgan i bob un o'r plant. Diolchwn hefyd i Ann Paterson ac Elizabeth Jones am drefnu'r bysiau. Dymuna pob un o'r plant oedd ar y trip ddatgan eu diolch unwaith eto i Mr Hutshinson am ei haelioni. Cafodd pob un £1 yr un ganddo. Diolch yn fawr.

CAPEL BOSRA: Bydd yr Ysgol Sul yn dechrau wedi i'r ysgol ail agor. Croeso cynnes i aelodau newydd. Ym mis Hydref bydd rhai o'r plant yn cael y ffrainc o ganu ym Mhasiant dathlu pedwar canmlwyddiant y Beibl yn Neuadd P.J. Bangor. "Mwy Nag Aur", yw enw'r pasiant, hanes bywyd Mari Jones. Bydd Sioned Wyn, yn chwarae rhan

gwraig y ffermwr a Rhian, Hefina ac eleri yn canu yn y côr. Hefyd y mae Sioned Lewis, Nia Elizabeth ac Andrea Paterson o Ysgol Sul Eglwys Santes Helen. Bydd yn brofiad bythgofiadwy i chi rwy'n siwr blant.

PASANT MWY NAG AUR: Trefnir bws o'r pentref i weld y pasiant ar Nos Wener, Hydref 14eg. Enwau i Elizabeth Jones a Mrs Mary Davies. Tocynnau ar gael gan Ann Ifans - Oedolion £1.50, Plant £1. Beth am ymuno i Ddathlu Pedwar Canmlwyddiant Cyfieithu'r Beibl?

CLWB YR HEULWEN: Bydd y cyfarfod nesaf ar Medi 20fed. Rwy'n siwr y dymuna pawb a fu ar dri blyneddol Clwb yr Heulwen a Chlwb y Merched ddiolch o galon i Mrs Mary Davies am drefnu trip diddorol trwy Nant Ffrancon, Betws y Coed, Bwlch Crimea, Blaenau a Phorthmadog. Cafwyd lluniaeth ardderchog yn y Ranch, Llanystumdwy. Diolch yn fawr.

PLANT YR YSGOL FEITHRIN



Iwan, Manon, Haydn, Rachel, Jenny, Nicky, Mathew, Karen, Rhys ac Eurig. Dymuniadau gorau i Rachel, Nicky ac Eurig yn Ysgol Tan-y-Coed a phob un arall sydd yn dechrau o'r newydd ym mis Medi.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn

AR GAU
SUL,
MERCHER.



DEWIS EANG O WELAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

+

**J.M.
JONES**

A'I FEIBION

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Y Felinheli 670124
(nos)

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES
17 BRYN TIRION
PENISARWAUN
Ffôn: LLANBERIS 872421

CARNIFAL Y PENTREF: Nos Sul cafwyd Cymanfa Ganu o dan arweiniad Mrs Mair Huws a Mr Bryn Griffith ar yr organ. Diolch i'r ddau ohonynt ac i blant yr ysgol am eu datganiad am William Morgan ac i bawb a gefnogodd y Gymanfa.

Diolch i Mrs Helen Owen am fod yn alwraig yn y Bingo, Nos Lun a diolch i'r rhai fu'n helpu gyda'r te a'r raffl. Rownderi a pheldroed gafwyd nos Fercher. Diolch i athrawon Ysgol Tan y Coed am eu cyfraniad. Diolch i bawb a fu'n brysur yn gweithio i wneud y Carnifal eleni eto yn llwyddiant. Diolch i'r Mri Morris am gael benthg y vae, i'r Beimiad teg ac i swyddogion yr Eglwys am gael benthg y byrddau a'r neuadd. Diolch i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd at llwyddiant y Carnifal. Diolch yn fawr.

CANLYNIADAU: Addumo Beic - Angela; Addumo het - 1. Arddun, 2. Tracy. Adurno coets - Yr ardd (Wendy), 2. Llong ofod (Ffion). Cymeriad gyda cheffyl She-ra, Cathryn. Unrhyw bar dan 12 oed: Cyd 1. Rachel a Jenny, Erin a Cennin. cyd 2. Lois a Sioned a Elgan a Sian. Unrhyw bar dros 12: 1. Marshallowman a Ghost Buster; 2. Dame Edna a Swaggman; 3. Alwena a Karen - Rickshaw. Dan 5 oed: Cyd 1af. Nicky, Mathew, Rowlands, Mathew Phillips a Haydn. 5-8 oed: Iwan, cyd 2. Dafydd Wena a Nia. 8-11 oed: cyd 1af. Eryl a Huw, cyd 2il. Owen ac eleri. 11-15 oed: 1. Nia, cyd 2. Hefina ac Andrea. Dros 15 oed: cyd 1af. Delyth a Beryl. Grwp 1. Eira Wen a'r saith corrach, 2. Beatles. Y gorau o'r enillwyr: Mathew Phillips.

MARWOLAETH: Bu farw Mrs A M Naylor, 1 Cefn Coed gynt ar Awst 8fed yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd yn Ysbyty Gwynedd ar Awst 18fed bu farw J Arvon Williams, Blaen Cae Isa. Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu-oedd y ddau.


DIOLCH: Dymuna Mrs Nancy E Jones, Meillinydd ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad o Ysgol Gwaun Gynfi ddiwedd Tymor Yr Haf. Diolch o galon i bawb.

GAIR O DDIOLCH: Dymunaf ddiolch o waelod calon i bawb a fu mor garedig ar achlysur colli fy chwaer yn ddiweddar, am gyfraniadau ac hefyd am bob dymuniad da i minnau yn ystod fy ngwendid y dyddiau a aeth heibio. Diolch yn fawr iawn i bawb. (Mrs M J Roberts, 5 Llys y Gwynt, Penisarwaun).

CYMDEITHAS HANES BRO'R ECO: Ar ran y Gymdeithas apeliwn amoch chi drigolion Penisarwaun, am "fenthg" hen luniau i'w harddangos yn Oriel Eryri ym mis Medi. Os oes gan unrhyw un ohonoch luniau o'r pentref a fuasech garediged â chysylltu ac Ann Ifans neu Arwel Jones os gwelwch yn dda. Diolch o galon.

ENILLYDD YR ENILLWYR

Y Wenynen yn yr Ardd
— Mathew Phillips



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CASNEWYDD: Bu ond y dim i ni gael y fraint o groesawu Prifardd i'n plith eleni. Llongyfarchiadau mawr i Selwyn Griffith, Crud yr Awen ar ddod yn ail am y Goron. Ei ffugenw oedd A55, honno rhwng Lloegr a Chymru "Ffin". Dyma'r ail dro iddo fod yn ail am y goron, felly Selwyn, "Tri cynnig i Gymro". Cyntaf y tro nesaf.

YMCHWIL Y GALON: Dymuna pwyllgor Caernarfon a'r cych o Ymchwyl y Galon, ddiolch i bawb a fu yn cynorthwyo gyda chasglu o dy i dy, ac hefyd am haelioni y cyhoedd. Y cyfanswm a gasglwyd oedd £2,186.67. Casglwyd £43.27 yn Penisarwaun. Mrs Eileen Thomas 316.80; Mrs Elizabeth Jones £26.47.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

HWYL CARNIFAL Y PENTREF



RHODDION

£5 Mrs Nancy E Jones, Meillinydd, Penisarwaun; Cyngor Cymuned Betws Garmon.

£3 Mr a Mrs James, Regent House Deiniolen.

£2 Teulu Trigfa, Ffordd yr Orsaf, Llanrug; J Jones, 51 Pentre Helen, Deiniolen; Mrs Kathy Evans 5 Tai Gweledfa, Deiniolen; Mr Neville Thorman-Jones, Deiniolen; Mrs Enid Lloyd Roberts, Llanberis; Edryd Sharp, Llanberis.

£1 Gordon Pritchard, Bangor; Brenhines Carys, Llanberis; Mrs M J Roberts, 5 Llys y Bont, Penisarwaun.

DRAMA GERDD ROGER JONES MWY NAG AUR

Stori Mari Jones a'r Beibl cyfaddasiad
Cymraeg gan RHIDIAN GRIFFITHS

gyda CHÔR IEUENCTID CYD-ENWADOL
YSGOLION SUL ARFON a
CHÔR CYMYSG BRO DYFNAN YNYS MÔN
Arweinydd-Cynhyrchydd: ROBIN JONES

NEUADD PRITCHARD JONES, BANGOR

Nos Wener a Nos Sadwrn

Hydref 14eg a'r 15fed am 7.30

Tocynnau: Oedolion £1.50, Plant £1.00

Ymunwch i ddatlu 400 mlwyddiant y Beibl

Archebwch gan Mrs Ann Evans, Sycharth, Penisarwaun (872407)

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

APARTEID

Roedd gen i gyfaill croenddu unwaith. Leon Maguru oedd ei enw, ac yr oedd yn hanu o Freetown, Sierra Leone, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd yn cysgu mewn gwely uwch fy mhen mewn cwt ar faes awyr ar Ynys Sheppey, yng ngheg y Tafwys, ac yr oedd wedi bod yn efrydydd yng Nghaergrawnt nes i'r rhyfel dorri ar ei yrfa.

Saeson oedd gweddill cwmniaeth y cwt, ac yr oeddent yn ôl eu harfer yn dilomi yr hyn nad oeddent yn ei deall; yn enwedig felly ddiwylliant a oedd wedi datblygu yn strydoedd cefn Freetown, Sierra Leone. Roedd Leon a minnau wedi ein dosbarthu yn fuan i'r hyn a elwir heddiw yn "ethnic minorities". Ond nid oeddem yn malio cymaint â hynny. Pan mae bom yn syrthio dydi hi ddim yn gallu gwahaniaethu rhwng un gwaed a'r llall.

Roedd ein byddinoedd erbyn hyn wedi glanio ar y Cyfandir ac yn symud yn nes i'r Almaen. Roedd yna awyrennau yn mynd allan yn gyson o'r maes awyr i weithredu yn erbyn trenau a thrafnidiaeth arall, yn Ffrainc a'r Iseldiroedd, ac ar y llaw arall, yr oedd Adolph yn chwarae ei gerdyn olaf i achub ei achos, ar ffurf taflegrau'r V.I. a oeddent wedi eu cyfeirio at Lundain yn arbennig, ac yn ein safle ni, roeddem yn union ar eu llwybr. Roedd y drafndiaeth awyrol yn gyson, ddydd a nos, fel

trenau yn rhedeg i amserlen. Nid oeddent yn uchel iawn, ac yr oedd rhai yn sythio yn fyr o'u cyrchfan, neu yn cael eu dryllio ar eu taith gan y gynnu, a oedd yn gwneud ceg yr afon yn un noson Guto Ffowc barhaol.

Roedd yn hawdd dweud pan ddiffygai un cyn cyrraedd pen ei thaith. Byddai'r peiriant yn difodd, ac yna, ymhen ychydig eiliadau, byddai clec uffernol yn rhywle gerllaw. Tarawyd y maes awyr unwaith neu ddwy.

Pan ddeuthum yno i ddechrau, roeddwn yn eu hofni ac yn effro'r nos yn eu cyfrif; ond mae rhywun yn cynefino â llawer o bethau mewn amser.

Un prynhawn, o ddiffyg dim gwell i'w wneud, heidiwyd ni i gyd i sine-ma i wrando ar rhyw swyddog o Dde Affrica yn darlithio ar y wlad honno. Roedd ei ddeunydd yn ddiddorol ddigon nes y dechreuodd archwilio'r berthynas rhwng y du a'r gwyn yn y dalaith. Bu mor anoeth ag awgrymu mai'r unig ffordd i drin y boblogaeth ddu oedd defnyddio'r chwip arnynt. Roeddwn yn ymwybodol fod corff Leon, â oedd yn eistedd wrth fy ochr, yn tynhau. Cododd ar ei union a mynd allan o'r adeilad, a dilynwyd ef gan yr hogiau duon i gyd, ac ni fynent, er ymbilion a bygythion, ddychwelyd ar un cyfrif.

Amser te, doedd yna ddim hanes o Leon, ond gyda'r nos dychwelodd o rhywle. Eisteddodd ar ymyl ei wely

gan ddweud dim. Yn y diwedd aethom i gyd i'n gwelyau.

Ganol nos deffrowd fi gan s^wn oddi allan. Gelwais ar Leon, ond doedd o ddim yn ei wely. Roedd hi'n noson ganol haf, welw. Clywais ergydion llaw-ddryll, a phlannodd un neu ddau o fwledi yn ochr y cwt. Cynyddodd y dadwrdd. Roedd hi'n amlwg fod yna ysgarmes oddi allan. Ar hynny cyrhaeddodd aelodau o'r heddlu milwrol, a chawsom ein cloi yn y cwt.

Tawelodd y s^wn ymhen dipyn, ond ni chysgais fawr drwy'r nos, ac yr oedd y damcaniaethau am y cynnwrf, erbyn y bore, yn amrywio i'w ryfeddu, ond cyn hanner dydd cawsom yr hanes.

Roedd Leon wedi mynd i chwilio am ei gymrodorion yn yr oriau mân, ac ar ôl ymngynull aethant i chwilio am y swyddog â ddarlithiodd gan fwriadu niwed iddo. Roedd gan Leon law-ddryll â gariai pan yn hedfan. Ond achubwyd blaen arnynt mae'n debygol. Erliedwyd hwynt gan yr heddlu milwrol, a chawsant eu cornelu ar fryncyn y tu allan i'n cwt ni. Ni welais Leon wedyn. Yn y prynhawn daeth milwr efo bag i niol ei eiddo prin, a chyn nos roedd dieithryn wedi meddiannu ei wely uwch fy mhen.

Byddaf yn meddwl heddiw, fel y bu i mi'r noson honno, gael rhagflas o'r hyn sydd yn digwydd ar raddfa eangach o lawer yn Ne Affrica erbyn hyn.

Y Gwalch



FFERMWYR IFANC CAERNARFON

Ar ddiwedd tymor 1987-88 cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y clwb a dewiswyd y canlynol fel swyddogion y tymor nesaf: Cadeirydd - Eurwyn Jones, Caernarfon; Is-gadeirydd - Aled Jones, Bethel; Ysgrifenyddion - Rachel Griffiths, Llandwrog ac Ellen Hughes, Caernarfon; Trysorydd - Helen Jones, Bethel; Arweinydd - Myfanwy Jones, Bethel.

Bu pedair o'r clwb yn cynrychioli Ffederasiwn Eryri yng ngystadlaethau'r Ffermwyr leuainc yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanellwedd ym mis Gorffennaf. Beirniadu Gwartheg Cigyddion dan 16 oed fu Nicole Griffiths a gwaneth yn arbennig o ddan drwy ddod yn ail yn y dosbarth. Yn y gystadlaethau Gwsigo Arweinydd fel Pync Rocyr y bu Gwen Jones, Gail Warrington a Myfanwy Jones a daethant yn chweched. Llongyfarchiadau i'r pedair am waith da iawn. Nos fawrth Gorffennaf 26ain cynhaliwyd Helfa drysor ar droed o amgylch pentref Bethel. Cafwyd noson hwyliog dros ben. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Bydd tymor 1988-89 yn dechrau ar Fedi'r 20fed am 8 o'r gloch yn Neuadd Goffa Bethel. Croeso i aelodau hen a newydd ymuno â ni.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

DYMUNIADAU GORAU: I holl blant yr ardal sydd yn newid ysgol neu yn gadael ysgol a dechrau ar yrfa newydd mewn coleg neu mewn gwaith. Dymunwn y gorau iddynt i gyd yn y dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU: i Arfon Hughes, Cae Rhos ar ei lwyddiant dros yr Haf yn dangos ei ddefaid Ll yn mewn nifer o sioeau. Cafodd y wobwr gyntaf am y defaid bron ym mhob sioe lle bu'n arddangos.

YMCHWIL Y GALON: Dymuna Pwyllgor Caernarfon a'r cylch o Ymchwil y Galon, ddiolch i bawb a fu yn cynorthwyo gyda chasglu o dy i dy, ac hefyd am haelioni y cyhoedd.

Y cyfanswm a gasglwyd oedd £2,186.67. Casglwyd £122.12 ym Methel. Nora Parry a Sheila Roberts £6.43, Mrs K Hughes £41.97, Alys Jones £7.04, Eryl Roberts a Eirlys Sharpe £25.34, Rita Williams £14.96, Gwyneth Williams £11.43, Elizabeth

Evans £15.22

DIOLCHIADAU: Dymuna Carys Owen, Berwyn, ddiolch o galon i bawb am eu dymuniadau da yn dilyn ei ymweliad ag Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU: Llongyfarchiadau i Mrs Harrison Bakita ar dderbyn medal yn ddiweddar am ei gwasanaeth hir i'r W.R.V.S.

CYDYMDEIMLO: Ddydd Sadwrn Awst 6, yn Ysbyty Gwynedd ar ôl gwaelled hir bu farw Mr Ron Mercer, Rhoslyn, Tan y Ffordd. Estynnwn pob cydymdeimlad â Mrs Mercer, y plant a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Ddydd lau, Gorffennaf 7 bu farw Mrs L T Andrews, 41 Bro Rhos. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

PLAID CYMRU: Cynhelir Helfa Drysor Ceir Nos Wener, Medi 9fed. Cyfarfod o flaen y neuadd rhwng 6.15 a 7 o'r

gloch. 50c i oedolion (plant am ddim). Croeso i bawb. Enwau i Sion Williams, 15 Y Ddôl.

LLONGYFARCHIADAU: i Wyn a Val, Parciau'r Rhos ar enedigaeth merch fach ac i Maldwyn a Lola, Ty'n Llan Uchaf ar enedigaeth bachgen bach.

Pwy yw'r Samariaid? Beth yw eu cyfraniad i gymdeithas? A allaf fi helpu? Dyna rai o'r cwestiynau a olynnir.

Rhyw bedwar ugain o wirfoddolwyr o wahanol alwedigaethau, sy'n fodlon gwrando gyda chydymdeimlad ar bawb sydd eu hangen yw'r Samariaid yng Ngwynedd. Byddent yn falch o'ch cymorth chi, un ai fel Samariaid neu fel cyfeillion i'r Samariaid.

Mae hysbyseb yn y rhifyn hwn o Eco'r Wyddfa yn rhoi gwybodaeth am gyfarfod agored ar Medi 26ain ym Methel. Dewch yno bawb o gylch Eco'r Wyddfa i gael mwy o wybodaeth.

Mae arnom eich angen (yn enwedig siaradwyr Cymraeg).

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646


Bydd
Y SAMARIAID
yn cynnal cyfarfod agored
yn NEUADD GOFFA BETHEL
ar
NOS FERCHER, MEDI 21
am 7.30 p.m.
Croeso i bawb o gylch Bro Eco'r
Wyddfa

Am wledd flasu
dewch at
Gwyndaf a Ceris
Williams

**SIOP
SGLODION
BETHEL
CHIP SHOP**

Archebwch
dros y ffôn!
Portdinorwig 670963
Cartref 670170

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol



Beth am ddysgu
dreifio gydag

**YSGOL YRRU
BETHEL**

Cysylltwch â

Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
Portdinorwig
671009

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian



Cystadleuaeth gwisg ffansi Hwyl Haf



Pwy oedd hwn deudwch?

HWYL HAF: Fel y gwyr pawb bellach profodd Hwyl Haf - gweithgaredd cyntaf o'i fath i'w gynnal yn y pentref yn lwyddiant ysgubol. Er bod peth pryder i fyny at y diwrnod na fuasai'r tywydd o'n plaid, ni wireddwyd yr ofnau hynny gan y sicrhawyd prynhawn sych. Diolch i bawb a gyfranodd at lwyddiant y diwrnod - mae criw llawer rhy niferus ohonoch i enwi pawb. Felly diolch o galon i bawb yn y pentref - heb anghofio cefnogaeth gwerthfawr ein ffrindiau yn Neiniolen. Roedd yn braf gweld pawb o bob oed yn mwynhau eu hunain. Diolch arbennig wrth gwrs i'r Cynghorydd Mrs. P Larsen am ddod atom i agor a beirniadu y cystadlaethau.

Prin bod angen dweud y bydd Hwyl Haf yn weithgaredd blynyddol o hyn ymlaen. Sicrhawyd elw o £250 ar y diwrnod - sydd yn golygu ein bod fel pentref wedi pasio ein nod o £500 tuag at gronfa apêl leol Eisteddfod yr Urd Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990. Mae hyn yn llwyddiant y dylem fel pentref ymfalchio ynddo - yn arbennig wrth gofio bod yr arian wedi ei gasgu o fewn blwyddyn o amsêr. Pwy feddyliai mis Mai diwethaf y byddem wedi cyrraedd ein nod ariannol erbyn hyn. Mae'n dangos bod digon o fywyd yn dal i fod yn y pentref ac ar sail llwyddiant y llu gweithgareddau a drefnwyd yn ystod misoedd y gaeaf yna ymddengys ein bod yn gweld cychwyn pennod newydd yn y pentref.

Er bod y nod ariannol wedi ei gyrraedd mae aelodau y pwyllgor apêl wedi penderfynu dal ati i gynnal gweithgareddau fel yr Eisteddfod Bentref a Hwyl Haf hyda unrhyw elw a wneir yn mynd tuag at wella cyfleusterau yn y pentref. Felly nid oes llaesu dwylo i fod.

Y gweithgaredd nesaf fydd yr Eisteddfod Bentref a fydd yn cael ei chynnal fel y llynedd yn gynnar ym mis Rhagfyr. Gobeithiwn gael mwy o fanylion i chwib erbyn y rhifyn nesaf o'r Eco. Os dymunwch gynorthwyo'r pwyllgor yn y gwaith o drefnu'r Eisteddfod yna cysylltwch â rhai o'r swyddogion.

CYNLLUN GLYN RHONWY: Er mai datblygiad arfaethedig ar bwys pentref Llanberis fydd y cynllun yma ni ddylid anghofio yr effaith niweidiol a gaiff ar ein sefyllfa ni yma ym mhentref Dinorwig a Fachwen. Yn wahanol i Lanberis bydd y datblygiad yma os caniateir yn ein gwynebu ddydd a nos ac y bydd yn cael llawer mwy o effaith amom na'r hyn a feddylir. Ymddengys na fydd yn olygu brydferth iawn i edrych arni heb anghofio y swm fydd yn sicr o gael ei gario dros y llyn tuag yma. Ymddengys y bydd yn ofynnol i ni feddwl o ddifri ynglyn â chanlyniadau y cynllun yma amom fel cymuned.

CAPEL: Er nifer o flynyddoedd bellach yr ydym ni yng Nghapel; Sardis (B) yn ystyried Mis Medi yn ddechrau'r flwyddyn weinidogaethol - pen blwydd y weinidogaeth os mynner. Nid wyf yn gwybod i sicrwydd a yw hyn yn wir am gapeli eraill y cylch yr ydym yn byw ynddo, ond cofier bod blwyddyn newydd yr Eglwys yng Nghymru yn dechrau gyda'r Adfent sy'n arwain wrth gwrs i'r Nadolig. O feddwl am ddiwedd blwyddyn yn disgyn ar diwedd Awst fe ddaw hi'n amsêr pwrpasol i edrych yn ôl ac edrych ymlaen, a gofyn i ni'n hunain a wnaethom yr iawn ddefnydd o'r adnoddau oedd at ein galwad, a llunio cynllun ymarferol i'r dyfodol. Os gwnaed camgymeriadau dyma'r adeg i gywiro, a gadael i brofiadau'r gorfennol esgor ar rywbeth amgenach i'r dyfodol.

Mae Dinorwig (MC) a Sardis (B) yn manteisio ar y cyfle ym mis Awst i gynnal oedfaon ar y cyd, ac fe dreulir dau Sul o'r mis yng Nghapel Dinorwig a dau Sul yn Sardis. O ganlyniad nid yw'r baich mor drwm ar y ddau gapel, oherwydd fe arbedir y gost o sicrhau rhai i lenwi'r pulpudau ar wahân, a hynny ar adeg lle mae posibilrwydd bod aelodau o'r ddau gapel oddi cartref ar wyliau. Mae'r naill gapel, felly'n cynorthwyo'r llall. Fe fanteisïaf ar y cyfle yn gystal i gywiro cam argraff a roddwyd pan oeddem yn sôn am Kate Roberts - y nofelydd adnabyddus a'r modd defnyddiwyd Capel Dinorwig ar gyfer ffilm oedd yn darlunio ei chyfraniad i fywyd crefyddol ein gwlad. Roedd Capel Dinorwig yn adeilad defnyddol i'r pwrpas yma, er na wyddom a fu Kate Roberts tu mewn i'w furiau. Y tebygolrwydd yw na fu o fewn cyffiniau ardal Dinorwig o gwbl. Fe fu'n disgrifio cymeriadau o wahanol rannau o

Gymru, ac fe ddichon bod ambell gymeriad yn Ninorwig yn ffitio i mewn i fframwaith ei disgrifiad unigryw hi. Mae Mrs Nesta Jones erbyn hyn wedi symud o'r ardal yn meddianu atogifon hapus o addoli yng Nghapel Dinorwig. Ei hen gartref wrth gwrs oedd Tan y Bryn, ac roedd yn perthyn i deulu oedd yn ffyddlon iawn i'w capel. Fe feithrinwyd teyngarwch i ahcos crefydd mewn nifer o deuluoedd o'r un genhedlaeth â hi, ac fe gofiwn am rai yn teithio'n gyson i gapel Dinorwig o ochrau Cernig y Nyth a Bryn Brith ac mae'r ffaith hon yn ein cymell i ofyn a amlygir yr un teyngarwch i raddau helaeth wedi ei goilli o'n mysg. Tybed a yw'r hen wefr wedi diflannu o'n bywyd crefyddol? Fe ddaeth i'n bywyd ddiddordebau newydd, ac fel yr hen Genedl fe droesom ein cefn ar y cariad cyntaf a fu'n ein cynnal yn y gorfennol.

Un arall a aeth o Ddinorwig i Benisarwaun oedd Mrs Gwen Lewis, Llys Gwynt. Mae rhai ohonom yn ei chofio'n cario'r enw Gwennie Salt - un o hen deulu a fu'n byw yn Creigle. Trist yw cofnodi ei marwolaeth hithau, a bu ei hangladd ar ddydd lau Gorffennaf 7fed ym mynwent St. Helen Penisarwaun. Fe gofiwn ni mai Eglwys St. Mair oedd yn hawlio teyngarwch ei theulu hi, ac mae rhai yn yr Eglwys honno yn cofio'n hiraethus amdani. Mae bylchau heddiw ym mhob capel ac eglwys, ac erfyniwn ar i Dduw ddod ag eraill i lenwi'r bylchau hyn. Aeth ein cynulleidfaoedd yn llai, ac mae lle i eraill i ddod i mewn.

Y GYMDEITHAS: Fe fyddwn yn bur fuan yn hagi ein harfau ar gyfer gweithgarwch crefyddol a chymdeithasol, ac yn ymbaratoi ar gyfer dosbarthiadau Ysgol Nos a'r Cymdeithasau Diwylliadol. y rhain sy'n dod a chyfoeth newydd i'r ardal. Fe gynhaliwyd Hwyl Haf ar un o'r adegau prin pan oedd y tywydd yn ffafriol a chlod i Mr Glyn Thomas yw i bopeth droi'n llwyddiant gyda'r bobl ieuanc yn rhoddi bop cefnogaeth i'r fent, ac arddangos cryn radd o ddychymyg er bod amryw anawsterau i'w goresgyn. A bwrw golwg yn ôl dros y tymor, fe gawn yr argraff bod y tywydd wedi bod o chwithig, gyda'r canlyniad i ni gael heulwen haf yn llawer rhy gynnar, a thywydd dwl a gwlyb pan oeddem yn disgwyl mwy o heulwen. Ni fu hyn yn gwbl wrth fodd y garddwyr yn ein hardal beth bynnag, ac ni bu cynnyrch y gerddi yn gwbl foddhaol. Ein hunig obaith bellach yw cael tywydd caredig dros dymor yr hydref a gwireddu un ddywediadau almanac Caergybi - "gwel yw'r agwedd at y diwedd".

COFION: Mae rhai o'n chwiriwydd hynaf yn parhau i fod oddi cartref, ac yn bodloni ar eu cartrefi newydd mewn sefydliadau ar eu cyfer - Mrs Dora Jones, Bryn Hyfryd er enghraifft mewn cartref yn Llanrug; Mrs Elizabeth Jones, 9 Maes Eilian ym

AR WERTH

Rolar Tir
ac

'Elevator'
Byrnau Gwair

Ffôn: Llanberis 870063

Mhlas Maes Inda, Caernarfon. Gyda'i hanwyliaid mae Mrs Catherine Ellen Jones gynt o Danbuarth Uchaf, ond yn cartrefu gyda'r ferch yn Foelgron; a Mrs Mary Ellen Jones hithau'n cael pob gofal gan ei merch yn Nhy'n Fawnog. Fe gawn bod Mrs

Maggie Evans, Dublin House ar hyn o bryd yn Bron Eryri. Da gennym deall bod Mr Alun Phillips yn adennill beth o'i nerth wedi ei aflwydd diweddar, ac nid yw hyn yn rhwystr iddo i yrru ei gar o gwmpas. Derbynied pob un ohonynt ein dymuniadau da iddynt.

EIN BRO: Fe geidw'r Cyngor lygad ar ffyrdd yr ardal, ond mae lle i wella eto yn nhro Pen Bwlch sydd o bosibl yn beryglus i dieithriaid ac ardalwyr esgeulus gyda'i ceir. Mae Mr Glyn Thomas yn feunyddiol yn atgoffa'r Cynghorau o'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn diogelwch ac mae yntau'n argymhell gofal manwl er osgoi damweiniau.

O ystyried y byd yn gyffredinol, fe deimlwn ni yn Ninorwig ein bod yn byw mewn mangre bur dangnefeddus, ac ni ddaw daeargrynfau enbyd i'n hysgwyl hyd seiliau ein bodolaeth. Ni wyddom ni beth yw byw dan gysgod dictaturaeth ddi-dostur a breniniaethau creulon a digydymdeimlad. Fe syrthiodd ein llinynau i leoedd hyfryd, ac fe gawn fwynhau breintiau na ddaw i ran eraill sydd dan gymylau ofn ac ansicrwydd. Tybed mewn gwirionedd a ydym yn gwerthfargi hyn?

YMCHWIL Y GALON: Dymuna pwyllgor Caernarfon a'r cylch o Ymchwil y Galon ddiolch i bawb a fu yn cynorthwyo gyda chsasglu o dy i dy ac hefyd ma haelioni'r cyhoedd. Y cyfanswm a gasglwyd oedd £2,186.67. Casglwyd £44.41 yn Dinorwig. Mrs Dilys Williams £44.41.

YSGOL SUL ST. MAIR: Wrth sôn am gynnal a chefnogi gweithgareddau yn y pentref - nid oes neb mwy parod eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd tuag at yr Ysgol Sul na Dafydd Wyn; Arwyn; Iwan, Aaron a Steven. Maent yn esiampl i fechgyn o'u hoed. Mae trefniadau ar droed i gynnal gwasanaeth Cymun teuluoel yn yr eglwys unwaith y mis a hynny ar fore Sul. Y bwriad fydd cael y plant i ddod gyda'u rhieni i'r gwasanaeth misol yma gyda'r plant eu hunain yn cymryd rhan canolog yn y gwasanaeth.



Dafydd Wyn, Arwyn, Steven, Iwan ac Aaron

PONT

Mudiad newydd yw PONT sydd wedi ei sefydlu'n ddiweddar iawn. Rhai wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith sy'n bennaf gyfrifol am y mudiad. Maent yn awyddus i ymdoddi'n llawn i'r gymdeithas Gymraeg a Chymreig, ond yn aml yn ei chael yn anodd i wenud hynny. Isod, cyhoeddwn erthygl ar amcanion PONT gan Pauline Ward o Fethesda. Trefnydd y mudiad newydd yw Jim Woodcock o fro'r Eco. Dymunwn bob llwyddiant i'r mudiad hwn, ac y mae croeso i chi ddefnyddio'r Eco fel cyfrwng i hyrwyddo a mynegi elch amcanion a'ch profiadau.

Mae'r effaith ar y diwylliant a'r iaith Gymraeg o bobl yn dod i mewn i'r wlad yn bwnc sy'n cael ei drin a'i drafod yn aml iawn. Hefyd, mae'r nifer o ddysgwyr yn tyfu o hyd, a mae llawer ohonyn nhw yn dweud ei bod hi'n anodd i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg. Mae PONT yn fudiad newydd sydd wedi cael ei sefydlu i wynebu y problemau hyn.

Dechreuodd PONT efo cyfarfod cyhoeddus ym mis Gorffennaf eleni, ym Manogr, a daeth dros 50 o bobl. Dilynwyd gan yr ail gyfarfod ym mis Awst. Yn ystod y cwrdd hwn, cafodd Mr Jim Woodcock ei ethol fel trefnydd.

Roedd cryn dipyn o sgwrs ynglyn â'r nodau. Cytunwyd bod PONT yn mynd i hybu pobl i ddysgu Cymraeg a rhoi gwybodaeth am gyrsgau. Roedd rhai dysgwyr yn dweud eu bod nhw'n methu ffeindio rhywun i ymarfer siarad efo nhw. Hwyrach y buasai'n bosib i BONT helpu yn y dyfodol trwy ddod o hyd i Gymry Cymraeg sy'n barod i helpu.

Syniad arall oedd i ddarparu gwybodaeth ar gyfer pobl sydd newydd

ddod, iddyn nhw gael gwybod am y diwylliant, yr iaith a'r gwahanol fudiadau Cymraeg. Buasai'n dda tasai pobl yn medru dysgu rhywbeth am Gymru cyn symud yma. Er enghraifft, a ydyn nhw wedi sylweddoli bod polisi dwyieithog mewn ysgolion? Un awgrymiad oedd, gofyn i asiantau tai i roi gwybodaeth i bobl yn Lloegr sy'n meddwl am brynu ty yng Nghymru.

Y trydydd nod ydi i weithredu fel grwp pwysau, ar gynghorau ac ar unrhyw gorff sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar yr iaith.

Yn ystod y cyfarfod nesaf mae eisiau penderfynu yn fwy poendant sut i fynd ati i gyrraedd yr amcanion. Croesewir syniadau, ac aelodau newydd. Dowch yn llw i Festri Capel Penueil, Love Lane, Bangor am 7.30 p.m. ddydd Mawrth y 4ydd Hydref. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Jim Woodcock, Ffôn Llanberis 870121.

CEUNANT

Gohebydd: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)

LLONGYFARCHIADAU: I Gwyn Morris, Merddyn ar ennill gradd BSc gyda Anrhydedd mewn Fferylliaeth yng Ngholeg Polytechnig Leicester. Mae Gwyn yn awr yn gweithio yn Fferyllfa Peris Jones yng Nghaernarfon. Pob lwc i'r dyfodol Gwyn.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Evelyn a Robin Williams, Tyddyn Ni ar enedigaeith mab, Dafydd Meredydd, brawd bach i Ceri.

PROFEDIGAETH: Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr Caradog Jones, Ty Capel ar farwolaeth ei frawd yn Sir Fôn yn ddiweddar.

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen, Caernarfon.

LLONGYFARCHIADAU: I Mrs Mary Albert Jones, 14 Rmes Glanrafon ar ennill gwobrau gyda'i gwaith llaw yn Eisteddfod yr Henoed.

I bawb o boblifanc y pentref a fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau.

I Sian Lovel, Drws-y-Coed, Erw Wen ar ei dyweddiad â Stephen Morgan o Gaernarfon.

Y CYFRYNGAU: Yn ystod mis Mehefin cafodd Caeathro dipyn o sylw ar y radio a'r teledu. Ddechrau'r mis clywsom nifer o drigolion y pentref ar 'Stondin Sulwyn' yn trafod dyfodiad y cŵn hela ger Tyddyn Llwyni. Yn cymryd rhan roedd Glyn Evans, Heulwen Atkinson a Clive James. Ymhellach ymlaen roedd Clive James ar y 'Stondin' unwaith eto yn trafod her y mewnfudwyr i'r ardaloedd Cymreig a'r angenrheidrwydd i wrthsefyll newid iaith y gymuned a'r gymdeithas o'r Gymraeg, a cheisio Cymreigio'r mewnfudwyr.

Wedyn ar y teledu clywsom hanes Myrfyn Roberts a'i deulu. Mae Myrfyn yn gweithio ar adeiladu'r twnel o dan y môr rhwng Lloegr a Ffrainc. Gwelwyd a chlywyd Myrfyn a Hefina a'u plant yn Folkestone ac yng Nghaeathro yn trafod eu problemau a'u gobeithion.

Y noson wedyn roedd Elizabeth Agnes Jones, 2 Bryn y Gôf, yn sôn am y cyfnod pan oedd yn forwyn i'r crach yn Lerpwl.

CYDYMDEIMLO: Yn ystod yr haf collasom ddwy o drigolion y pentref. Yn gyntaf bu farw Mrs Annie Owen, Homes, ac wedyn Mrs Katie Thorman Jones, Isfryn. Cydymdeimlwn fel pentrefwyr â'u teuluoedd yn eu colled. Bydd lle gwag ar ôl y ddwy yn

y pentref.

Daeth y deyrnged isod i law oddi wrth Ann Hughes, Pentraeth, Ynys Môn, er cof am Mrs Annie Owen a hunodd 28.7.88.

Ffarwel ffrind, daeth awr ymado, Est yn dawel hwnt i'r lli; Dim ond llen sydd rhyngof heno A'r baradwys lle'r wyt ti.

Drws agored yw marwolaeth, Trwyddo'r awn i wlad yr heddi; Byw ein bywyd yn fwy helaeth, Nid oes angau, gwag yw'r bedd.

CYNGOR CYMUNED: Mae dau olau newydd wedi eu gosod ym Mhenrhos gan y Cyngor yn barod ar gyfer y gaeaf. Hefyd mae'r Cyngor yn archwilio prisiau i wella un o lwybrau cyhoeddus yr ardal. Gall unrhyw un sydd a diddordeb gael manylion o'r gwaith gan Ifor Hughes, Lleifior.

GER Y TÂN: Bydd y clwb yn ailgychwyn am y gaeaf ar nos Fercher, Medi 28ain, pryd y ceir noson yn nhŷ Julia yng Nghewn Rhos Isaf. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH: Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Katie Thorman-Jones ddiolch yn ddiffuant i bawb am y cydymdeimlad a'r cymorth a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Diolch am y llu cardiau a'r rhoddion hael tuag at Ymchwil y Cancr hefyd diolch arbennig i Mrs Jean Williams am fod yn gymydog mor arbennig o dda, a diolch hefyd i Mr Gwilym Jones a'i Fab, Caernarfon am y drefnu'r angladd.

YMCHWIL Y GALON: Dymuna pwyllgor Caernarfon a'r Cylch o Ymchwil y Galon, ddiolch i bawb a fu yn cynorthwyo gyda chasglu o dy i dy, ac hefyd am haelioni y cyhoedd.

Y cyfanswm a gasglwyd oedd £2,186.67 Casglwyd £22.47 yn Caeathro. Mrs Lynda Owen £22.47.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CABS LLANRUG



C'FON 5951

Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Cymdeithas Ddifyra'r Fro

Cyfarfod fel arfer ar y drydedd nos
Fercher yn y mis yn Amgueddfa
Gogledd Cymru (Oriol Eryri), Llanberis
am 7.15 pm. Am raglen lawn dewch
i'n cyfarfodydd neu gysylltwch â'r
Ysgrifennydd Maurice Jones, Meillionen,
Cwm-y-Glo, Ffôn: Llanberis 870466

Tâl Aelodaeth:- Teulu £5,
Unigolion mewn gwaith £3, Eraill £1
Hydref 19 Amgueddfa Gogledd
Cymru (Oriol Eryri) 7.15 pm

Darlith: "Troseddwy'r a
Misdimanars yn Oes Elisabeth"
gan Nia Watcyn Powell

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626.

DYMUINIADAU GORAU: Ar ôl cwblhau cwrs dwy flynedd ar gerddoriaeth sylfaenol yn Wrecsam, mae Joanna Marston, Blaen-y-Nant, yn dechrau ym mis Medi ar gwsr perfformio am bedair blynedd yng Ngholeg Cerdd Trinity, Llundain. Bydd yn astudio yr offeryn chwyth Obo, gyda'r piano fel ei hail offeryn. Dymunwn yn dda iddi.

YR YSBYTY: Croesawn gartref o'r ysbty nifer o'r pentref, a gobeithiwn eu bod i gyd yn gwella erbyn hyn. Ein dymuniadau gorau i Mr Evan Hughes, Tref Eilian; Mrs Hughes Roberts, Dol Erddi; Mrs Nancy Thomas, Tan-y-Foel; Mrs Jones, Tan-y-Waun; Mrs Owelida Williams, Fronlwyd; Mr Harry Jones Parry, Rala; Mr Arnold Roberts, Bryn Golau; Mr T E Jones, Cartrefle; Andrew Parry, Bro Waun; Mrs Marian Jones, Shinfild; Mrs Liz Daniels, 8 Stad Ty Hen, Mrs M Mallinson, Cefn y Waun, a Mr G Dinwiddy, Glyn y Garth. Anfonwn ein cofion at Mrs K W Jones, Bron Eifion, sy'n parhau yn Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU: i Iwan Ellis, Glyn Awel, Adrian Owen, Dolerdd, Jason Anderson, Bodarfon, a Jonathan Davies, Dol Gwyrfa, ar gyrraedd eu penblwydd yn 18 oed.

I Bethan Williams, Bod Hyfryd ar ei dyweddiad â Peter Fraser o Deganwy, ac i Gwyneth Williams Bryn Celyn ar ei dyweddiad hithau â Andrew o Reading.

I Huw Owen, Noddfa ar ei briodas â Karen o'r Felinheli, ac i'w dad a'i fam Mr a Mrs W T Owen, ar fod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab i'w merch Elisabeth a Stephen.

I Terry Parry, Bro Waun ar ei briodas â Lorna Jones, Cae Gwyn, Caernarfon.

I John Griffiths, y Llythyrdy, ar ei briodas yn ddiweddar.

I Rhodri a Sylvia Prys Jones, Pen-y-Graig, ar enediggaeth mab, Trefor Meirion, brawd bach i Aled ac Ifan.

I Mr a Mrs Robin Williams, Bryn Difyr ar enediggaeth merch, chwaer i Karen a David.

I Anna Lloyd Hughes, Treflan Isa, ar ei phriodas â Gareth Williams, o Ffrwd Cae Du, Bontnewydd.

I Meirion Williams, 1 Dol Erddi a loan Eilir, Rhandir Mwyn ar lwyddo yn eu Gradd 1af yn y Bocsio Seineaid, Wu Shu Kwan.

I Meirion Williams, mab Mrs Marian Williams, 18 Stad Ty Hen, ar ei briodas â Helen o Fethel.

I Mr John G Jones, Hafod y Rhug, a Mr Elwyn Griffith, Cae Ysgubor, ar gael eu dewis i gynrychioli Cymru yn Ymryson Cwn defaid i'w cynnal yn yr Alban.

I Mrs Annie Thomas, Gilfach ar ei hymddeoliad o Ystorfa Ty Newydd, a diolch iddynt fel teulu am eu gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd.

I oll o blant y pentref a wnaeth mor rhagorol yn eu arholiadau lefel A a'r TGAU. Dymuniadau gorau iddynt i gyd yn y dyfodol

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fisoedd Mehefin a Gorffennaf

1. Keith Owen, Stad Ty Hen; 2. Dr Miles, Trefeddyg; 3. Jean Jones, Lwyn Onn; 1. Eurig Wyn, Y Frenni; 2. W T Owen, Stad Tref Eilian; 3. Alma Jones, Tan y Fron

ARHOLIADAU CERDDOROL: Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant:

Clarinet - Gradd 4: Rachel Davies, Nant y Mynydd (gydag Anrhydedd); Gradd 6 - Gareth Davies, Nant y Mynydd (gydag Anrhydedd); Theori - Gradd 1 - Huw Gwilym, Lliadiart Wen; Gradd 3 - Bethan Wyn, Y Frenni; Elin Gwilym, Lliadiart Wen. Piano: Gradd 1 - Gavin Owen, Dol Erddi; Gradd 2 - Heddu Gwynedd, Nant (Teilyngdod); Anwen Rhys Jones, Lwyn Afon (Teilyngdod); Delyth Jones, Cymant Lodge; Carolyn Griffiths, Tyn y Wern. Gradd 3 - Zoe Gordon, Garnedd Wen (Anrhydedd); Sarah Williams, Parc; Gradd 4 - Ella Wyn, Graianfryn (Teilyngdod).

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod cangen Waunfawr o Sefydliad y Merched Nos lau y 7fed Mehefin. Croesawyd Mz Gotami i'r cyfarfod gan Mrs Pat Parry y Llywydd, ac hefyd croesawodd y Gwr Gwadd Mr Rol Williams. Traddododd Mr Williams araith ddiddorol ar sefydlu ac adeiladu Rheilffordd y Wyddfa. Mwynhawyd sgwrs Mr Williams yn fawr gan pawb oedd yn bresennol a diolchwyd iddo yn gynnes gan Mrs Ellen Jones. Rhodd gan Mrs Betty Griffith oedd y raffi a'r enillydd oedd Mrs Margery Bitton. Oherwydd gwyliu'r haf ni fydd cyfarfod ym mis Awst ond disgwylir Mrs Hazel Jones i roi sgwrs ar lygod mawr yn y cyfarfod nesaf fydd ar y 1af o Fedi. Disgwylir aelodau o gangen Bontnewydd a fethodd ddod i gyfarfod diwethaf i ymuno â ni ym mis Medi.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Mae'r rhaglen ar gyfer tymor y gaeaf yn awr wedi ei chwblhau, ac ymysg y siaradwyr gwadd ceir darlithoedd gan yr Athro Bedwyr Lewis Jones, Parch Emlyn Richards, Cemaes a Mr Hywel Parry, Y Groeslon. Yn ogystal, ceir cyfarfodydd yn cael eu cynnal gan ddoniau lleol - popeth er budd rhaglen ddiffr "i dorri'r gaeaf". 1Bydd y cyfarfod cyntaf nos Lun Hydref 31, a gobeithir croesawu aelodau newydd y tymor hwn eto.

DOSBARTH W.E.A: Hyd yn hyn nid oes unrhyw drefniant wedi'i wneud i gynnal dosbarth y WEA yn y pentref yn ystod y gaeaf nesaf. Os oes rhywun neu rywrai yn awyddus i gael dosbarth gofynnir iddynt gysylltu â swyddfa'r Mudiad ym Mangor ar unwaith.

DIOLCH: Dymuna Menna ac elfyn, Stad Ty Hen, ddiolch i bawb am y cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enediggaeth eu merch fach, Nia.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fisoedd Mehefin a Gorffennaf: 1. £40 Mr Harry Thomas, Bryn Teg; 2. £25 Dr. A L Miles, Trefeddyg 3. £10 Miss Marian Jones, 20 Stâd Ty Hen; 1. £40 Gareth Jones, Glyn Ceris; 2. £25 Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd; 3. £10 J.H Edwards, Anneddle.

DIOLCH: Dymuna Edgar, Carys a'r teulu ddiolch i bawb a'u cefnogodd yn Ystorfa Ty Newydd, Waunfawr. Dymuniadau gorau i'r perchnogion newydd Allen ac Anne Addison a'r teulu.

CYDYMDEIMLO: Daeth colled fawr i ran Mrs Ann Elfryn, Coed Gwydryn, ar ddechrau'r haf pan fu farw ei thad ar ôl salwch byr iawn. Cydymdeimlwn â hi a'r teulu yn eu profedigaeth. Hefyd â Mrs Katie Roberts, Derlwyn, ar golli ei brawd.

ANTUR WAUNFAWR: RAS ANTUR 88 A BARBACIW; Cynhelir y Ras

eleni ar Fedi 10fed yn cychwyn o'r Ganolfan am 2 o'r gloch y p'nawn. Os am gymeryd rhan yn y Ras anfonwch am eich ffurflen gais i Bryn Pistyll, Waunfawr, gydag amlen amgaeedig wedi ei stampio. O 6.30 ymlaen bydd Barbaciw ym Mryn Pistyll, y pris fydd £1.50 i oedolion a £1 i blant. Dewch draw am swper blasus a noson ddiffr o sgwrsio a chymdeithasu. Bydd cyfle eto eleni i wahanol gymdeithasau yn y pentref elwa o'r Ras drwy gael stondinau yn y Ganolfan yn ystod y prawn. Bydd Merched y Wawr yn falch o dderbyn cacen neu nwyddau at eu stondin, a derbynir unrhyw gyfraniad yn y Ganolfan ar fore'r Ras.

YR URDD: Dechreuir tymor y Nadolig nos Fercher, Medi'r 7fed am 6 o'r gloch yn y Ganolfan, pan fydd cyfle i'r plant ymaelodi am y flwyddyn 1988-89.

YMCHWIL Y GALON: Dymuna pwyllgor Caernarfon a'r Cylch o Ymchwil y Galon, ddiolch i bawb a fu yn cynorthwyo gyda chasglu o dy i dy, ac hefyd am haelioni'r cyhoedd. Y cyfanswm a gasglwyd oedd £2,186.67. Casglwyd £138.38 yn Waunfawr.

CRYNO-DDISGIAU YN Y LLYFRGELL

Erbyn hyn gall defnyddwyr pedair llyfrgell yn y sir gymryd mantais o fenthg cryno ddisgiau. Y cyfnod benthg yw tair wythnos a chaniateir benthg y cryno ddisgiau hyn am danysgriadiad blynyddol o £5. Y mae'r gwasanaeth newydd hwn a gynigir o Lyfrgell Conwy, Llangefni, Caernarfon a Phorthmadog yn dilyn penderfyniad a wnaed gan y Cyngor y llynedd i beidio a phrynu recordiau ond i ganolbwyntio ar gasetiau a chryno ddisgiau.

Y mae'r sain a atgynhyrchir trwy ddefnyddio cryno ddisgiau yn llawer iawn gwell ei ansawdd na'r hyn a gaed yn y gortfennol ar recordiau feiniol.

Rhagwelir y bydd ansawdd y gwasanaeth a gynigir gennym felly, o safon tipyn yn uwch ac yr ydym yn rhagweld y bydd defnydd uchel o'r ychydig gryno ddisgiau sydd gennym ar hyn o bryd. Yn ystod y flwyddyn bwriedir ychwanegu at y casgliadau fel y mae cyllid yn caniatáu. Llwyddwyd i gychwyn y casgliadau trwy dderbyn £4,000 yn ychwaneg gan y Cyngor Sir yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

Gwasanaeth NEWYDD yn
yr ardal!

**EMYR LL.
PARRY**
M.S.S.CH.
M.B.CH.A.

**CHIROPDIST
GWASANAETH
CARTREF**

57 Glanffynnon
LLANRUG
FFÔN (0286) 5754
(Gyda'r nos)



AM FFENESTRI A DRYSAU U. P.V.C.

Dim Paentio
Dim Pydru
Dim Rhydu

Dim stumio
Dim trafferth
Dim ond ffonio...

**CAERNARFON 2935 (Swyddfa)
neu LLANBERIS 870795 William Roberts**

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Anedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

PWYLLGOR APEL YR URDD: Ym mis Gorffennaf trefnwyd Garddwest lwyddiannus iawn yng ngerddi Castell Bryn Bras gyda chymorth caredig y perchnogion Marita a Neville Gray-Parry. Daeth nifer dda yno i gefnogi'r fenter ac i fwynhau eu hunain mewn lle mor hyfryd.

Roedd y lawntiau a'r gerddi braf yn lle delfrydol i'r dawnsio gwerin, gymnasteg ac arddangosfa o waith Ambiwylans Urdd Sant Ioan. Hyfforddwyd grwp dawnsio gwerin y pentref gan Idwal a Bethanne Williams, Disgwylfa, a phlant Urdd Sant Ioan gan Avril Jones a Griff Roberts. Gwerthfawrogydd yn fawr yr Arddangosfa o Ddawnsio Gwerin gan Ddawnsiwr Caernarfon. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn iddynt oll am eu gwaith a'u cefnogaeth.

Enillwyr y Raffl oedd:

1. Gwin - Gwen Oliver Griffiths; 2. Dol - Catrin Whiteside Thomas; 3. Stôl - Mr Franklin, Maes Carafannau, Brynteg; 4. Tegan Meddal - 5 Glan Moelyn; 5. Cig - Llew Hughes, Cwmyglo; 6. Llieiniau - Pat Regan, Llanrug;

Enwi'r ddol: Gloria Carson, Deiniolen; Sgôr uchaf dartiau - Kevin Davies.

Targed Llanrug at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dyffryn Nantlle 1990 yw £4,000 a gyda elw o £550 yn yr arddwest mae £2,500 wedi ei gasglu hyd yma.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb yn yr ardal a gyfrannodd nwyddau, rhodion, gwobrau, arian ac a helpodd mewn unrhyw fodd i wneud yr Arddwest yn llwyddiant. Diolch yn arbennig i Marita a Neville Gray-Parry, Bryn Bras ac i chi i gyd am ddod yno. Bydd gweithgareddau eto yn y dyfodol agos er mwyn cyrraedd y targed a rydym yn hyderus y cawn eich cefnogaeth unwaith yn rhagor.

AR Y LLWYFAN: Ym mis Hydref bydd yr actores Mari Rowland Hughes, Pant Afon, yn ymddangos ar lwyfan theatr Hampstead Llundain. Bydd yn actio yn y ddrama Hedda Gabler o waith Ibsen. Gwelsom Mari droeon ar raglenni Cymraeg a Saenseg ar y teledu a dymunwn yn dda iddi yn ei rhan yn y ddrama yma.

PLAID CYMRU: Cangen Llanrug a'r cylch: Yng nghyfarfod blynyddol y gangen etholwyd y swyddogion a ganlyn: Cadeirydd - Phyllis Ellis; Ysgrifenyddion: Olwen Llywelyn a Nan Hunphreys; Trysorydd: Gwyndaf Jones; Ysgrifenydd aelodaeth - Vera Williams; Ysgrifenydd Clwb Cant - Cliff Williams.

Mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu am y flwyddyn yn cynnwys Darlith, Noson Tân Gwyllt i'r pentref, Cinio Nadolig yng ngwesty newydd Seiont Manor, Llwyn Brain, Dathlu Gwyl Ddewi, Ffair Wanwyn, Trip yn yr haf ac amryw o gyfarfodydd eraill. Bydd y casggyddion yn barod i dderbyn eich tâl aelodaeth ar ddechrau mis Medi ac mae hefyd yn adeg ymaelodi â'r Clwb Cant. Edrychwn ymlaen at dymor llwyddiannus unwaith eto.

ADREF AR WYLIU: Cafodd Mrs Megan Martin Fair Haven, anrheg penblwydd ardderchog ym mis Gorffennaf pan gafodd weld ei wyres fach deng mis oed am y tro cyntaf. Daeth Dr a Mrs John Martin a'u merch fach Sally adref o San Francisco, U.D.A. am ychydig o wyliau.

LLONGYFARCHIADAU: i Catrin Hughes, 2 Tai Cwawia ar ei llwyddiant yn yr arholiad Sirol, Henaduriaeth Arfon. Derbyniodd ei gwobr mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Seilo, Caernarfon. Mae Catrin yn aelod o Ysgol Sul Cysegr, Bethel.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i

Dafydd ac Anwen Owen, Bryn Moelyn ar enedigaeth eu mab bychan yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Mrs Menai Roberts a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli Mr Gwilym Lloyd Roberts.

Hefyd cydymdeimlir â theulu y diweddar Mrs Louie Jones, 22 Hafan Elan yn eu profedigaeth yn ddiweddar. Dymuna'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth a hefyd am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at Eglwys Sant Mihangel, Llanrug.

PRIODAS: Priodwyd Mr Leslie Gordon Fraser a Miss Linda Williams yng Nghapel Mawr yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddynt ar gyfer y dyfodol.

CEFNOGI GARETH



BARBACIW: Cynhaliwyd Barbaciw yng Nghil y Bont nos Sadwrn Awst 13. Er gwaetha'r tywydd bu'n noson lwyddiannus iawn. Casglwyd £352 tuag at Ymchwil yr Arennau. Rhannwyd yr elw rhwng Uned yr Arennau yn Ysbyty Gwynedd a Chronfa Arennau'r Plant yn Ysbyty Alderhay Lerpwl. Mae Gareth Roberts, Crigyll Llanrug yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Alderhay a dymuna Judy ac Aled Roberts ddatgan eu diolch i'r cyfeillion ddaeth at ei gilydd i drefnu'r noson ac i bawb am eu cefnogaeth.

CYMDEITHAS LENYDDOL: Cyfarfu aelodau o Gymdeithas Capel Mawr nos lau 14eg Gorffennaf i drefnu rhaglen ar gyfer tymor 1988-89. Penderfynwyd cynnal y Gymdeithas ar nos Fercher 12fed o Hydref gyda Parti Lleisiau Mignedd.

Swyddogion am 88-89 fydd: Llywydd: Mr Eifion Roberts; Is-lywydd: Mr John W Owen; Trysorydd: Mrs M E Jones; Ysgrifenyddion: Mrs J Davies a Mrs M Parry.

DIOLCH: Dymuna Gwawr Owen, Rhos Elan, Llanrug ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 18 oed ar Awst 3ydd. Dymuna Betty, Meifod ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tra bu yn Ysbyty Dewi Sant yn ddiweddar.

DIOLCH: Dymuna Dafydd Whiteside Thomas ddiolch i bawb o'r fro a'i cefnogodd yn ariannol ar y daith beics noddedig i gasglu arian tuag at Fws Mini i Ysbyty Bryn Seiont. Diwedd y gân yw'r geiniog! A fyddai'r rhai sydd heb dalu crystal â gwneud hynny erbyn diwedd yr wythnos gyntaf ym mis Medi os gwelwch yn dda.

DIOLCH: Dymuna Derek a Delyth, Trigfa, Ffordd yr Orsaf, ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl gareidigrwydd a haelioni a ddangoswyd iddynt hwy a'u merch Lowri, yn diweddar. Diolch yn arbennig i'r rhai a fu'n ymwneud â'r noson goffi a gynhaliwyd yn ystod mis Gorffennaf yn Ysgol Gynradd Llanrug, ac i ddigybllion Ysgol Brynrefail.

90 OED



Owen Owens, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 90 yn ddiweddar.

DIOLCH: Dymuna Owen Owens, Bro Rhuddalt, ddiolch am y caredigrwydd a gafodd gan bawb o'r ardal ar achlysur ei benblwydd yn 90 oed.

YN YR YSBYTY: Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr John Rowlands, Llys Forgan a Mr Roberts Jones 13 Hafan Elan sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

PRIODAS: Llongyfarchiadau i Caron Wyn Owen a John Pritchard, Nant Peris ar eu priodas yng Nghapel Mawr, Llanrug yn ddiweddar.

DYMUNIADAU DA: i Mrs Tegwen Owen, Bod Elwy ar ei hymddeoliad o'i gwaith fel cymorth cartref.

DYMUNIADAU DA: i Mr a Mrs W A Jones, Dalar Deg ar ddathlu eu penblwydd priodas aur ar Awst 21ain.

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth Medi 13, am 7.30 p.m. yn Neuadd yr Ysgol Gynradd, Llanrug "Trem yn ôl" gyda sioe ffasiynau yng ngofal Miss Sidi Roberts. Croeso cynnes i bawb.

YMCHWIL Y GALON: Dymuna pwyllgor Caernarfon a'r Cylch o Ymchwil y Galon, ddiolch i bawb a fu yn cynorthwyo gyda chasglu o dy i dy ac hefyd am haelioni y cyhoedd. Y cyfanswm a gasglwyd oedd £2, 186.67 Casglwyd £225.62 yn Llanrug. Mrs Owen Hughes a Mrs Mair Hughes £10.63; Mrs Beryl Thomas £40.78; Mrs Joan Griffiths £14.11; Mrs Cynthia Owen £11.74; Mrs Mair Jones £16.09; Mrs Mai Parry a Mrs Gwyneth Roberts £37.99; Mrs Nan Humohreys £18.24; Mr Griff Roberts a Mr Alf Parry £47.45; Mrs Margaret Jones £16.43; Mrs Joyce Jones £12.16.

Ym Mhonrug, casglwyd £7.72 gan Mrs Meryl Green.

LLONGYFARCHIADAU: i ddwy a basiodd eu arholiadau ffidil yn ddiweddar sef Caroline Jones, Arfryn gyda theilyngdod a Delyth Morris, Murddyn Ceunant.

LLONGYFARCHIADAU i Helena Parry, 2 Bryn Heli, ffordd Glanffynnon, ar ei dyweddiad hefo Brian Jones o'r Fali.

YSGOL GANOL LLANRUG



Llun a anfonwyd gan Mrs K Griffiths, Maes Padarn, Llanberis, gyda'u henwau o'r chwith i'r dde:

Rhes gefn: Will Parry, Cledwyn Rhos Ddu, Freddy Naylor, Iolen.

Ail res: John Milligan, Owain Wyn, Elwyn Parry, Emlyn Griffiths, John Wyn, John Owen, Maggie.

3ydd rhes: ?, Elizabeth Stabla, Bessie Lloyd, Mona Morris, Meira Wilson, Vera Naylor, Ceridwen Hughes, Mair Hughes, Jennie Oliver, Enid Tŷ Draw.

4ydd rhes: ?, Sarah Parry, Naomi, Miss Parry, Megan Glan Gors, Betty, Rhiannon, Katie Cwawia.

5ed rhes: Megan Davies, Nancy Bryngwyn Mawr, Grace Jones, Nelly Maxwell, Gwyrfaï, ?.

Rhes flaen: Cledwyn Jones, Nowi Tŷ Felin, ?, Edgar, Will Foulkes.

Pwy all lenwi'r bylchau a rhoi'r dyddiad inni? Buasem hefyd yn gwerthfawrogi rhywfaint o hanes yr ysgol yn y cyfnod. Gol.

EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG

Dyddiadau i'w cofio

**Nos lau, Medi 8fed - Noson Goffi
Sadwrn, Medi 17eg - Dyddiad derbyn
cyfansoddiadau llenyddol**

**Nos Fawrth, Hydref 4ydd - Dyddiad
derbyn cynnyrch celf a chrefft
Sadwrn, Hydref 8fed - Diwrnod yr
Eisteddfod**

Rhestr testunau ar gael am ddim o'r siopau lleol

Dyddiadur y Mis

Medi

1 Iau WAUNFAWR: Sefydliad y Merched

5 Llun LLANBERIS: Clinig Dynion Holliach o 6-8 o'r gloch yn y Clinig.

DEINIOLLEN: Sefydliad y Merched

7 Mercher YR ARDAL: Cwrs i Athrawon a Charedigion yr Ysgol Sul yng nghapel Ebeneser, Caernarfon

WAUNFAWR: Yr Urdd - Noson ymaelodi yn y Ganolfan am 6 o'r gloch

LLANBERIS: Clwb y Mamau yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch

9 Gwener LLANBERIS: Te yr Henoed

10 Sadwrn WAUNFAWR: Râs Antur am 2 o'r gloch a Barbiciw o 6.30 ymlaen ym Mryn Pistyll

11 Sul LLANRUG: Capel Mawr, yr Ysgol Sul yn ail ddechrau am 10 y bore

13 Mawrth LLANRUG: Merched y Wawr am 7.30 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd - 'Trem yn Ôl' gyda Sioe Ffasiynau yng ngofal Miss Sidi Roberts

19 Llun BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched

20 Mawrth PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen

BETHEL: Clwb Ffermwyr leuanc yn y Neuadd Goffa

21 Mercher BETHEL: yn y Neuadd Goffa am 7.30 o'r gloch, cyfarfod i bawb yn yr ardal gan Y Samariaid

23 Gwener LLANBERIS: Te yr

CADW'N HEINI

Yn ail-ddechrau yn Neuadd Ysgol Gynradd Llanrug
Nos Fercher, Medi 14eg am
7 o'r gloch

Pris: £6 am 10 gwers
neu 80c y wers
Meryl Green 77149

Bistro

Glandŵr

43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)



CURIAD CALON CYMRU



CURIAD CALON CYMRU

Henoed

27 Mawrth Cymdeithas Addysg yr Amgylchfyd. Darlith y flwyddyn ym Mhlas Tanybwllch gan yr Athro Harold Carter.

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL**

**GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF**

**ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH

**WELDING &
FABRICATING**

**32 GLANFFYNNON
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 5394

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth


STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

**TEGID
PRITCHARD**

**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291**

Hefyd ail-osod carpedi



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.
A dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg

CYFEIRIADWYR ERYRI

Cystadleuaeth Cod Lliwiau
(Yn cynnwys GALLOPEN GOGLEDD CYMRU)

DYDDIAD

Dydd Sul 18ed o Fedi, 1988

LLEOLIAD

Coedwig Beddgelert

TEITHIO

Parcio Ceir ar Lon Goedwig
(MR 573502)

Troi i'r Goedwig wrth Bont Cae'r Gors, ar yr A4085
(2Km i'r De o Rhyd-Ddu, 3/4Km i'r Gogledd o Feddgelert)
Wedi ei arwyddo o Bont Cae'r Gors.

AMSER

Cofrestru - o 10.00 a.m.

Cychwyn - Rhwng 10.30 a.m. a 12.30 p.m.

Cyrsiau'n Cau - 2.30 p.m.

MAP

1:15,000, 5 Lliw, Cyfuchliniau 10M

CYRSIAU

Melyn, Oren, Gwyrdd, Glas, Brown

COST

Hyn - £1.50c Iau - £1.

Cofiwch gario Pib ar Gyfer argyfwng.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Hefin Jones, Pant Mwyn,
Llanrug. Ffôn: Cfon 3838

**Un o gartrefi brafia'r fro
CARTREF PRESWYL HENOED**



**BRON
ERYRI**

**LLANBERIS, Ffôn:
870142 neu 870391**

PERCHENNOG

MRS. EIRIAN MALI S.R.N.

- Stafelloedd sengl a dwbl
- Gofal 24 awr
- Gwres canolog trwy'r adeilad
- Yr holl staff yn siarad Cymraeg
- Golygfa hardd
- Liffat at bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
- Rhagofalon tân priodol
- Lolfa teledu lliw
- Pwyntiau teledu ym mwyafrif y lloffttydd
- Bath-medic

**Cofrestrwyd gan Adran Gwasanaethau
Cymdeithasol Gwynedd**

CHWARAEON

PELDROED CYNGHRAIR GWYNEDD

Tim Cyntaf Llanberis
Colli 5-3 yn Hotpoint
Cyfartal 0-0 ym Montnewydd
Curo 2-0 yng Nghaergybi

Tim Cyntaf Llanrug
Colli 4-0 yn Llangefni
Curo 2-1 ym Mhenrhyndeudraeth
Cyfartal 1-1 ym Mlaenau Ffestiniog

CYNGHRAIR SAIN

Llanberis
Colli 4-1 yn Nghaernarfon Boro'
Cyfartal 1-1 yn Harlech

Llanrug
Curo 4-1 ym Mangor
Curo 1-0 ym Mhorthmadog

Deiniolen
Colli 9-1 ym Mhwillheli
Colli 6-0 ym Mangor
Colli 8-2 ym Mountain Rangers

Cawn fwy o hanes y timau yn rhifyn y mis nesaf

LEN CORY

Yn ystod mis Gorffennaf bu farw un o gyn chwaraewyr pêldroed Clwb Llanberis o ganlyniad i ddamwain erchyll yng Nghlwyd. Roedd Len Cory, o Hen Golwyn yn gyrru lori Manweb dros bont Rhuddlan pan aeth y lori allan o reolaeth a phlymio i'r Afon Clwyd islaw.

Roedd Len Cory yn bêldroediwr adnabyddus iawn yn yr hen gynghrair Caernarfon a'r Cylch yn nechrau'r chwedegau. Daeth i Lanberis fel un o "Hogia Lal" yn ystod tymor 1962/63 a buan iawn y daeth yn un o ffefrynau y dorf ym Mhadarn Road.

Yn gorfforol, gwr cymharol fychan oedd Len ond roedd yn bêldroediwr cryf ac awdurdodol. Meddai ddawn pêldroediwr naturiol ac ni arhosai'r "penddu" am eiliad i gael ei wynt ato yn ystod gêm. Rhoddai ei holl egni i'r gêm a garai. Roedd yn heini tu hwnt ac ymhyfrydai bob amser yn ei ffitrwydd.

Daeth Len i Lanberis ar ddechrau

cyfnod llewyrchus iawn yn hanes y Clwb. Enillodd anrhydeddau fyrdd gyda'r Clwb. Roedd yn aelod o'r tîm a enillodd Cwpan Iau Gogledd Cymru yn ystod tymor 1963/64. Nid oedd clwb o Gynghrair Caernarfon a'r Cylch erioed wedi cael y clod hwn. Gwalchmai oedd y gwrthwynebwyr ar yr Oval ac fe seliwyd y fuddugoliaeth o 1 i 0 gyda gôl gan Gwyn Edwards yn hwyr yn yr ail hanner. Yn ôl Bobby Haines, capten Llanberis ar y pryd, Len Cory achubodd y dydd. Ychydig funudau cyn gôl Gwyn, gyda Gwalchmai yn pwyso'n drwm, peniodd Len y bêl oddi ar linell y gôl ac fe drodd hynny'r fantol. Fel y dywedodd Bobby Haines ar ôl y gêm "Roedd Len yn y lle iawn ar yr adeg iawn". Nid lwc mo hyn ond dawn Len i ddarllen y gêm.

Nid oedd gan Len Cory elynion, roedd yn chwaraewr teg, glân a distaw gyda gwên barhaol ar ei wyneb. I'r rhai hynny o'r fro sy'n ei gofio ar gae Padarn Road bydd yr atgofion yn rhai melyn.

Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu.



Tim Peldroed Llanberis yn nechrau'r 60au. Len Cory yw'r seithfed o'r chwith yn y rhes ôl.

ATHLETWRAIG ARBENNIG IAWN

Llongyfarchiadau i Haf Thomas, Buarthau, Llanrug ar ei llwyddiant yn 6ed Chwaraeon Arbennig Cymru a gynhaliwyd yn Wrecsam a Bangor dros y cyfnod Mehefin 28 i Gorffennaf 1.

Yng nghanolfan Chwaraeon Queensway fe enillodd y Fedal Aur am daflu pêl a'r Arian am redeg; ac yna y fedal Arian eto am nofio yn ddiweddarach ym Maddon Dinas Bangor.

Ardderchog Haf, dal ati!



PYSGOTA

Rhwng canol mis Mehefin a dechrau Gorffennaf parhaodd yr afonydd i ddangos eu hesgyrn, ond er gwaetha'r diffyg llif daeth nifer helaeth o Sewin da i'r afon Seion. Roeddynt yn oedi braidd yn rhy hir yng nghyffiniau'r Llyn Du a Llyn Garnage ar gyrion Caernarfon ac fel dywed yr hen air, "Dyfal donc" oedd yr ateb i'r pysgotwyr llwyddianus yn yr ardal yma. Nodedig oedd yr helfa, gyda Steven Williams yn cael y Sewin goreu i fyny at y cyntaf o Orffennaf yn bedwar pwys a hanner o Lyn Du, a hyn ar ei dymor cyntaf yn yr afon.

Hefyd mae y canlynol wedi bod yn llwyddiannus Malcolm Owen, Caernarfon 27 rhwng 2 bwys a phedwar pwys; Thomas J Thomas, Cwm y glo hefo trua 20 o bwys a hanner i dri phwys a hanner; Brian Thomas, Bethel; Howard Jones, Caernarfon, hefyd gyda nifer dda i fyny at bedwar pwys.

Yn gynnar yng Ngorffennaf cafwyd llif go lew, a mawr oedd y disgwyl y byddai'r bariau gloyw yn dechrau cartrefu yn y pyllau o Benbont i Glanrafon, ond yn ôl pob golwg pasio heibio wnaethant heb oedi ar eu ffordd i'r Manddwr a Llyn Llanberis, clywais fod Emyr Owen, Deiniolen wedi cael helfa go dda ond does dim cownt gennyf o'r rhif; hefyd bachodd Gwynfryn Jones, Llanrug, ddwy grislen fach yn Llyn Doctor, ond eu rhyddid yn ôl gafodd y rhain.

Yr unig sibrydion arall gefais oedd fod Steve Carr, Ceunant wedi cael un chwe phwys a hanner yn Rheuad, Alan Girsberg tri at y pwys a hanner yng Nghrawia, a minnau 1 am ddau

bwys a hanner eto o Grawia.

Araf yw'r Llyfni o rhan y nifer a ddelir ond mae Maurice Craig, Llanllyfni wedi cael dau Sewin eithriadol am 7 pwys a hanner ac wyth bwys. Buaswn yn falch o gael mwy o newyddion o ardal Penygroes.

Tawel iawn yw'r Gwyrfaï hefyd oherwydd y prinder dwr, y rhan fwyaf yn cael eu dal yn ôl yng Nghronfa Cwellyn.

Wrth gloi buaswn yn hoffi dod â'r canlynol i sylw pawb yn ardal Llanrug, yn enwedig rhieni plant sydd a'r arferiad o nofio yn yr afon yng nghyffiniau Crawia:

Rhyw ddau fis yn ôl roedd aelodau'r gymdeithas yn atgyweirio rhai o'r pyllau tua 500 llath yn is na gwaith carffosiaeth Llanrug, yn sydyn roedd yr afon wedi ei lliwio ac yn drewi o garthion heb eu trin, i gyd wedi eu harllwys o'r gwaith.

Yn dilyn hyn cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Bwrdd Dwr lle rhoddodd swyddogion y gymdeithas wybodaeth i'r awdurdod am eu pryder o berygl i iechyd a gofyn i waith Llanrug gael ei ehangu i gyfran yr adeiladau yn Llanrug. Yr ateb oedd, fod gwaith Llanrug yn rhy fach i'r pentref, fod y gwastraff sydd yn cael ei arllwys ohono i'r afon yn gwneud nofio yn yr afon yn berygl i iechyd a does dim gobaith o waith ehangu gael ei wneud am beth bynnag 2 neu dair blynedd.

Gofynnodd y gymdeithas i'r Awdurdod Dwr roi arwyddion i ddweud fod nofio yn berygl i iechyd a'r lannau yr afon ond gwrthod wnaethant.

RASIWR BEIC

Disgybl fydd yn dechrau ar ei Sed flwyddyn fis Medi yn Ysgol Brynrefail yw Gerallt Bryfdir Jones o Fethel, ac eisoes mae wedi gwneud enw iddo i hyn drwy'r wlad fel reidiwr beic addawol dros ben.

Ar yr olwg gyntaf does dim o gwbl yn eithriadol mewn reidio beic pedal, mae'r gallu gan bron bawb, ond i rasio'n llwyddiannus fel y gwna Gerallt mae angen gallu arbennig iawn ynghyd â chryfder corfforol a dyfal barhad.

Nid beiciau cyffredin a ddefnyddir ychwaith, ond peiriannau sydd wedi eu hadeiladu ar gyfer y sbort, a hyn ar gost o gannoedd lawer yr un. Ychwanegir at hyn y gost o brynu'r dillad arbennig a'r teithio o gwmpas y wlad ac fe welir nad ar chwarae bach y penderfynir ymgymeryd â'r gêm.

Perthyn Gerallt i Glwb Reidio Eryri ond dan enw Ysgol Brynrefail y bydd yn cystadlu yn y GHS (Cwpan Goffa George Henry Stanser). Daeth yn 5ed ynddi y llynedd yn ei ymdrech gyntaf, ond eleni ar y 9ed o Orffennaf ar y ffyrdd ger Lerpwl ef ddaeth i'r brig mewn amser o 24 munud 7 eiliad dros bellter o 10 milltir. Cymro ddaeth yn ail hefyd sef Dylan Thomas o Gaergybi, 7 eiliad y tu ôl i Gerallt. Defnyddir beiciau arbennig ar gyfer y treialon amser hyn, rhai "low profile" gydag olwyn fach ar y tu blaen.

Beic cyffredin a ddefnyddir ganddo yn y cystadlaethau eraill ac ymysg ei llwyddiannau diweddar fe gynnwys: Mehefin 5ed: 6ed dros 25 lap o drac MOTEC (hen faes awyr ger Amwythig) yn y Wrekinsport Criterium.

Mehefin 19eg: Ail i Martin Harp o Glwb Weaver Valley yn y ras dan 14eg oed o gwmpas canol tref Amwythig.

Gorffennaf 3ydd: 7fed yn y Wrekinsport Crit. eto dros 25 lap o'r MOTEC. (tua 15 milltir).

Mae Gerallt yn gyfarwydd ag anafidau tra'n dilyn ei sbort, yn wir bu iddo golli wythnos o ysgol ym mis Mai yn dilyn damwain ar drac MOTEC pan ddaeth ei deiar ôl i ffwrdd.

Yn dilyn ei lwyddiant yn y GHS mae'n edrych ymlaen bellach ar bencampwriaeth genedlaethol a gynhelir ym mis Medi ym Mhaterborough, ac mae'n bwriadu ymarfer yn galed mewn paratoad.

Felly, os pasiwyd chwi yn eich car gan feic bach hyd lonydd yr ardal yn ystod y gwylliau, gallwch fod yn weddol sicr mai Gerallt oedd ar ei gefn, yn ymarfer, o bosibl at lwyddiant yn y "Tour de France" rhyw dro yn y dyfodol.

